

Dadansoddi ar gyfer Polisi



Analysis for Policy

Ymchwil gymdeithasol

Social research

Rhif: 57/2013



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk

Cynlluniau Integredig Unigol: Adolygiad Interim

Cynlluniau Integredig Unigol: Adolygiad Interim

John Broomfield ac Ahlem Lezerad

Safbwyntiau'r ymchwilyr a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid ydynt o reidrwydd yn adlewyrchu barn Llywodraeth Cymru.

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch â:

John Broomfield

Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi

Llywodraeth Cymru

Parc Cathays

Caerdydd

CF10 3NQ

Ffôn: 029 2080 1193

E-bost: John.Broomfield@wales.gsi.gov.uk

Ymchwil Gymdeithasol Llywodraeth Cymru, 2013

ISBN 978-1-4734-0124-2

© Hawlfraint y Goron 2013

Cydnabyddiaeth

Diolch i Dimau Cymorth y Byrddau Gwasanaethau Lleol a dadansoddwyr data ym mhob un o'r 22 o awdurdodau lleol. Heb eu cydweithrediad ni fuasai'r astudiaeth hon yn bosibl.

Diolch hefyd i gydgysylltwyr y Partneriaethau Plant a Phobl Ifanc ac aelodau'r Byrddau Gwasanaethau Lleol a oedd yr un mor barod i gymryd rhan yn y prosiect ymchwil.

Tabl Cynnwys

Rhestr Acronymau.....	5
1. Cyflwyniad a Chyd-destun Polisi.....	11
2. Methodoleg.....	17
3. Y Cynllun a'i Fethodoleg.....	21
4. Y Sylfaen Dystiolaeth a'r Ffordd o'i Dadansoddi	26
• Y Dadansoddiad o'r Sefyllfa.....	27
• Y Dadansoddiad o'r Ymateb.....	34
5. Ymgysylltu â Dinasyddion.....	38
6. Partneriaethau.....	43
7. Adnoddau.....	48
8. Monitro Cynnydd.....	53
9. Casgliadau ac Argymhellion.....	56

Rhestr Acronymau

ASG	Atebolrwydd Seiliedig ar Ganlyniadau
AUA	Asesiad Unedig o Anghenion
ALI	Awdurdod Lleol
BGLI	Bwrdd Gwasanaethau Lleol
CIU	Cynllun Integredig Unigol
DSG	Dull Seiliedig ar Ganlyniadau

Crynodeb Gweithredol

1. Datblygwyd y Cynllun Integredig Unigol (CIU) er mwyn cael gwared â haenau o gymhlethdod a symleiddio arweinyddiaeth a phenderfyniadau lleol. Mae canllawiau Llywodraeth Cymru yn datgan bod y Cynllun Integredig Unigol i gymryd lle o leiaf bedwar o'r cynlluniau a strategaethau statudol presennol (y Strategaeth Gymunedol, y Cynllun Plant a Phobl Ifanc, y Strategaeth Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles a Chynllun y Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol (sy'n cynnwys y tair strategaeth troseddau ac anhrefn)), gan leihau cymhlethdod a dyblygu, a rhyddhau adnoddau o ganlyniad. Er hynny, mae'r canllawiau'n ei gwneud yn glir bod y CIU i'w ddefnyddio i gyflawni'r dyletswyddau statudol o ran datblygu cynlluniau a strategaethau sy'n ofynnol o dan y ddeddfwriaeth bresennol – felly ni fydd rhai o'r swyddogaethau sydd yn y cynlluniau presennol yn cael eu disodli ym mhob achos.
2. Pan gyflwynwyd y CIU yn ddiweddar, roedd yn cael ei weld yn her i awdurdodau lleol a'u partneriaid symud ymlaen â'u cydarweinyddiaeth ac yn fodd i ganolbwyntio a chreu gwahaniaeth gwirioneddol a mesuradwy drwy gyflenwi gwasanaethau effeithiol a gwella'r canlyniadau i bobl sy'n byw yn eu cymunedau.
3. Yn Hydref 2012, comisiynwyd Adolygiad Interim o Gynlluniau Integredig Unigol gan yr arweinydd polisi dros gynllunio integredig ac fe'i cynhaliwyd gan Ymchwilwyr Cymdeithasol Llywodraeth Cymru ar y cyd â myfyriwr PhD o Brifysgol DeMontfort a oedd wedi'i gyflogi'n intern yn unswydd ar gyfer yr adolygiad.
4. Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno canfyddiadau'r adolygiad interim hwn. Ei nod cyffredinol yw asesu'r dulliau o ddatblygu a gweithredu CIUau, ynghyd â'r Asesiadau Unedig o Anghenion (AUAau) sy'n rhan ohonynt, yn yr holl awdurdodau lleol yng Nghymru, er mwyn cyfrannu at bolisi ac ymarfer.

5. Er mwyn cyflawni prif amcanion yr ymchwil, cynhaliwyd dadansoddiad dogfennol (o'r CIUau a'r Asesiadau Unedig o Anghenion sydd ynddynt) ynghyd â chyfweliadau lled-strwythuredig (â Thimau Cymorth BGLlau a dadansoddwyr data yn y 22 o siroedd) rhwng Tachwedd 2012 ac Ebrill 2013.
6. Er bod y CIUau wedi'u llunio mewn ffyrdd gwahanol, daeth chwe thema gyson i'r amlwg: y cynllun a'i fethodoleg; y sylfaen dystiolaeth a'r ffordd o'i dadansoddi (a oedd yn cynnwys dwy thema – y dadansoddiad o'r sefyllfa a'r dadansoddiad o'r ymateb); ymgysylltu â dinasyddion; partneriaethau; adnoddau, a monitro cynnydd.
7. *Y Cynllun a'i Fethodoleg:* Yn gyffredinol, drwy fabwysiadu syniadau a oedd wedi'u seilio ar ganlyniadau cafwyd trafodaethau a dadleuon adeiladol ynghylch datblygu canlyniadau cyffredin. Nodwyd bod heriau'n codi o ran y gallu i gymhwyso dulliau seiliedig ar ganlyniadau (DSGau) yn gyson at gynllunio strategol; diffyg dealltwriaeth o dermau sy'n ymwneud â DSGau; ac ystyriaethau o ran hyfforddi'r staff presennol i sicrhau gallu mewnol.
8. *Y Sylfaen Dystiolaeth a'r Ffordd o'i Dadansoddi:* Yng nghyswllt CIUau a'r AUA sy'n rhan ohonynt, teg yw dweud bod y rhan fwyaf o awdurdodau lleol (ALLau) wedi datblygu 'dadansoddiad o'r sefyllfa' a oedd yn nodi anghenion â blaenoriaeth, dangosyddion poblogaeth a mesurau perfformiad, gyda nifer o graffiau a thablau i'w ategu. Yn y rhan fwyaf o achosion, cafwyd ymdrech i egluro cyd-destun y data. Serch hynny, roedd y dogfennau hyn yn gyfyngedig mewn sawl ffordd.
9. Nid oedd yn glir bob amser sut yr oedd y CIU i gael ei weithredu'n lleol, na pha ymchwil a oedd wedi'i chynnal ynghylch cyflawni neu ddylanwadu ar ganlyniadau'r CIU. Prin oedd yr ALLau a oedd wedi gwneud mwy na

disgrifio'r cefndir i nifer o setiau data. Nid oedd pob awdurdod lleol wedi gweld y CIU a'r AUA yn gyfle i ddisgrifio 'ymyriadau', er mwyn dangos i Fyrddau Gwasanaethau Lleol ba fathau o ymyriadau yw'r gorau i ddelio â phroblemau cymdeithasol penodol ar sail dadansoddiad o'r dystiolaeth.

10. Mae'r adolygiad interim yn nodi ei bod yn hollbwysig cynnal 'dadansoddiad o'r ymateb' sy'n rhoi sylw i adroddiadau am ymyriadau lleol, cenedlaethol a rhyngwladol sy'n cael effaith gydnabyddedig o ryw fath ar y problemau cymdeithasol sydd wedi'u nodi. Yn y pen draw, dylid gweld yr AUA yn fwy na dim yn ffordd o ddylanwadu ar ddulliau o ddarparu gwasanaethau yn y dyfodol, ac yn ddogfen i 'alluogi' y BGLI i 'wneud penderfyniadau'.
11. Y ffordd fwyaf amlwg o wella ansawdd y dadansoddiad o'r ymateb yw ailgyfeirio rhywfaint o'r ymdrech sy'n mynd i'r dadansoddiad o'r sefyllfa. Wrth wneud hyn, byddai'n fwyaf manteisiol canolbwyntio ar gasglu ac arfarnu tystiolaeth i werthuso effeithiolrwydd yr ymyriadau o ran gwireddu'r canlyniadau arfaethedig. Yn y tymor hwy, byddai hyn yn cyfrannu'n fawr at sicrhau'r effaith a'r gwerth am arian mwyaf posibl, yn gwella ansawdd penderfyniadau, ac yn gwneud gwasanaethau'n fwy atebol. Pwysleisir hefyd nad oes rhaid i'r dadansoddiad o'r ymateb fod yn elfen ddaearyddol yn yr asesiad anghenion strategol.
12. *Ymgysylltu â Dinasyddion*: Er bod rhai BGLlau wedi penderfynu cynnwys y cyhoedd wrth ddylunio'r CIU, drwy arolygon a rhwydweithio cymdeithasol, roedd yn well gan nifer ohonynt ymgynghori unwaith yn unig ar ôl llunio'r CIU. Nid yw'n glir eto a yw cyfranogi'n fwy effeithiol nag ymgynghori yng nghyd-destun cynlluniau integredig unigol. Beth bynnag oedd pwrpas yr ymgysylltu (cyfranogi neu ymgynghori), prin oedd y BGLlau a ddywedodd eu bod wedi cydgyngori â dinasyddion wrth ddylunio a gwella gwasanaethau cyhoeddus. Roedd dryswch yn aml ynghylch beth yw union ystyr ymgysylltu â dinasyddion.

13. *Partneriaethau*: Roedd nifer o BGLlau wedi sefydlu grwpiau thematig sy'n gysylltiedig â chanlyniadau'r CIU yn lle strwythurau partneriaeth. Gan amlaf, roedd y Bartneriaeth Plant a Phobl Ifanc, y Bartneriaeth Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles a'r Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol wedi'u disodli gan grwpiau thematig sef, er enghraifft, rhai ar gyfer Iechyd, Cyfoeth a Ffyniant. Bellach roedd y grwpiau thematig hyn yn adrodd i 'Dîm Partneriaeth' cyffredinol a oedd yn gyfrifol am integreiddio camau gweithredu rhwng grwpiau thematig.
14. Roedd rhai ALLau wedi cadw eu strwythurau partneriaeth presennol ar y sail eu bod 'wedi gweithio'n dda erioed'. Roedd nifer llai o BGLlau wedi ad-drefnu eu strwythurau'n sylweddol ac wedi cyflwyno dulliau darparu wedi'u seilio ar fodel rheoli cymdogaethau o ganlyniad i broses y CIU. Roedd BGLlau eraill wrthi'n trafod effaith bosibl y CIU ar strwythurau partneriaeth a dulliau o ddarparu gwasanaethau.
15. Er ei bod yn cael ei weld yn 'her sylweddol', roedd y rhesymoli ar bartneriaethau wedi bod yn werthfawr i'r ALLau hynny a oedd wedi gwneud newidiadau.
16. *Adnoddau*: Roedd yn glir bod y cyfleusterau a oedd ar gael ar gyfer dadansoddi'n amrywio rhwng awdurdodau lleol. Roedd hyn yn wir hefyd am fethodolegau seiliedig ar ganlyniadau. Er bod rhai awdurdodau lleol wedi cynnal sesiynau i drosglwyddo gwybodaeth am ddulliau seiliedig ar ganlyniadau (DSGau) rhwng partneriaethau, mynegwyd pryderon gan nifer o swyddogion arweiniol CIUau a dadansoddwyr data am faint yr adnoddau a oedd ar gael yn fewnol ar gyfer DSGau ac effeithiolrwydd y rhaglenni hyfforddi ar DSGau ar draws yr awdurdod lleol.
17. Roedd rhannu gwybodaeth yn cael ei weld yn allweddol, ond nid oedd yn digwydd yn eang yn ôl rhai a gyfwelwyd. Dywedwyd yr un peth yn aml am gyfuno cyllidebau.

18. *Monitro Cynnydd*: Roedd y rhan fwyaf o BGLlau yn bwriadu cyflwyno dulliau ar gyfer monitro a chofnodi cynnydd ac adrodd arno i BGLlau, y cyhoedd a Llywodraeth Cymru – yn bennaf drwy gardiau adrodd Atebolrwydd Seiliedig ar Ganlyniadau (ASG).
19. Er mwyn monitro cynnydd bydd angen diweddarau'r dadansoddiadau o'r sefyllfa a'r ymateb yn rheolaidd, yn ogystal â chynnal rhyw fath o werthuso (gwerthusiad o'r dull o weithredu'r broses a sut y mae'n cyfrannu at greu gwell canlyniadau yw'r elfen hanfodol). Er mwyn gwerthuso'r broses yn fwy trylwyr byddai angen asesu'r canlyniadau a gafwyd o dan holl amcanion y cynllun ac edrych yn fanwl ar effeithiolrwydd yr ymyriadau. Rydym yn derbyn nad yw'n bosibl cyflawni hyn o fewn y cyfyngiadau presennol ar adnoddau.
20. I glori, gwelwyd bod BGLlau yn defnyddio ffyrdd gwahanol o ddatblygu'r CIUau, a'r AUA sy'n rhan ohonynt, ledled Cymru. Mae ein hadolygiad interim yn dangos bod nifer o gyfyngiadau 'ar lawr gwlad', sy'n debygol o effeithio ar BGLlau wrth iddynt ddatblygu CIUau, yn bennaf yng nghyddestun y gallu a'r potensial ar gyfer dadansoddi, ac adnoddau sy'n gysylltiedig â methodolegau seiliedig ar ganlyniadau. Gyda golwg ar hyn, rydym yn disgrifio nifer o ffyrdd ymlaen ac yn awgrymu bod ALLau yn eu hystyried yn fewnol. Rydym hefyd yn tynnu sylw at nifer o faterion y gallai Llywodraeth Cymru weithredu arnynt yn y dyfodol.

1. Cyflwyniad a Chyd-destun Polisi

- 1.1. Ym Mehefin 2012¹, ailddatganodd Llywodraeth Cymru ei barn bod gwaith cynllunio mewn llywodraeth leol a'r sector iechyd yn aml wedi rhoi gormod o sylw i'r galw yn hytrach na'r angen. "Mae hyn wedi arwain at ddarparu gwasanaethau adweithiol ac adferol sy'n trin problemau ar ôl iddynt godi, yn hytrach na'u hatal rhag digwydd yn y lle cyntaf. Ar adeg pan fo cyllidebau'n lleihau a disgwyliadau'n codi, nid yw hyn yn gynaliadwy."
- 1.2. Ym marn Llywodraeth Cymru² y sylfaen ar gyfer symud ymlaen yn gynaliadwy â chynllunio mewn ardaloedd lleol yw Cynllun Integredig Unigol sy'n seiliedig ar dystiolaeth gadarn ac yn adlewyrchu anghenion y boblogaeth leol yn glir.³ Dywedir bod rhaid i lywodraeth leol a'i phartneriaid ganolbwyntio eu hymdrechion yn gryf ar ymyrraeth gynnar a mesurau ataliol, er mwyn torri cylchoedd o ddibyniaeth ac atal canlyniadau gwael rhag parhau o'r naill genhedlaeth i'r llall.
- 1.3. O ganlyniad i'r farn uchod, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru 'Cydamcanu – Cydymdrechu' – canllawiau i Fyrddau Gwasanaethau Lleol ar lunio cynlluniau integredig unigol, monitro ac adolygu'r gweithredu arnynt, a gofynion deddfwriaethol y dyletswyddau statudol presennol ar gyfer cynllunio. Cyhoeddwyd y canllawiau o dan adran 45 o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009,

¹ Llywodraeth Cymru (2012) Cydamcanu – Cydymdrechu.

² Llywodraeth Cymru (2012) Cydamcanu – Cydymdrechu.

³ Dylid cydnabod y rhan ganolog a chwaraeodd llywodraeth leol wrth ddatblygu'r polisi hwn. Mae cynllunio integredig yn deillio o arferion a oedd yn datblygu'n lleol yn Sir Gaerfyrddin, Bro Morgannwg ac yn enwedig yng Nghaerdydd. Roedd Llywodraeth Cymru wedi mabwysiadu ymagwedd hyblyg a goddefol at ddulliau arloesol o weithio felly mae'r polisi'n enghraifft bendant o lunio polisi ar y cyd gan lywodraeth ganolog a llywodraeth leol.

adran 40(7)(b) o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006 ac adran 25(8) o Ddeddf Plant 2004.

- 1.4. Mae'r adroddiad hwn yn disgrifio'r canfyddiadau o adolygiad interim o'r dulliau o ddatblygu Cynlluniau Integredig Unigol (CIUau) a'r Asesiadau Unedig o Anghenion (AUAau) sy'n rhan ohonynt yn y 22 o Fyrddau Gwasanaethau Lleol. Ei nod cyffredinol, ar ddiwedd y cylch cynllunio cyntaf, yw adnabod arferion sy'n datblygu, ffyrdd addawol o weithio, a meysydd i'w gwella er mwyn cyfrannu at ffurfio polisi ac arferion yn y dyfodol.

Y ddadl o blaid newid

- 1.5. Mae gweithio mewn partneriaeth wedi ymwreiddio yn y gwasanaeth cyhoeddus yng Nghymru ac mae tystiolaeth bod perthnasoedd ymddiriedus wedi datblygu rhwng sefydliadau o ganlyniad i hyn (Dysgu i Wella, 2011).
- 1.6. Fodd bynnag, wrth iddynt ddatblygu mae'r partneriaethau lleol hyn wedi achosi cymhlethdod a dyblygu, gan gynnwys partneriaethau ail a thrydedd haen, gweithgorau a grwpiau gorchwyl a gorffen. Rhai o'r rhesymau am hyn yw brwdfrydedd lleol dros sefydlu partneriaethau newydd i fynd i'r afael â phynciau newydd ac amharodrwydd i addasu'r partneriaethau presennol at ddibenion newydd. Yn achos sefydliadau rhanbarthol, fel byrddau iechyd lleol a'r heddlu, mae'r cyfle a'r costau ffisegol o wasanaethu nifer mawr o bartneriaethau wedi bod yn sylweddol.
- 1.7. O ganlyniad i hyn, roedd Llywodraeth Cymru a'r BGLlau eu hunain yn teimlo bod angen symleiddio strwythurau partneriaethau lleol o dan arweiniad clir y BGLI er mwyn eu gwneud yn addas i'w diben, adfer atebolrwydd ac ailgyfeirio staff ac adnoddau at ddulliau integredig o gynllunio a darparu gwasanaethau.

Cynlluniau Integredig Unigol

- 1.8. Datblygwyd y Cynllun Integredig Unigol er mwyn cael gwared â'r haenau hyn o gymhlethdod a symleiddio arweinyddiaeth a phenderfyniadau lleol. Yn y canllawiau, datganwyd bod y Cynllun Integredig Unigol i gymryd lle o leiaf bedwar o'r cynlluniau a strategaethau statudol presennol (y Strategaeth Gymunedol, y Cynllun Plant a Phobl Ifanc, y Strategaeth Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles a Chynllun y Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol (sy'n cynnwys y tair strategaeth troseddau ac anhrefn)), gan leihau cymhlethdod a dyblygu, a rhyddhau adnoddau o ganlyniad. Er hynny, mae canllawiau Llywodraeth Cymru yn ei gwneud yn glir hefyd y bydd angen defnyddio'r CIU i gyflawni'r dyletswyddau statudol o ran datblygu cynlluniau a strategaethau sy'n ofynnol o dan y ddeddfwriaeth bresennol – felly ni fydd rhai o'r swyddogaethau sydd yn y cynlluniau presennol yn cael eu disodli ym mhob achos.
- 1.9. Mae Llywodraeth Cymru wedi datgan yn glir fod rhaid i'r gwaith o ddatblygu'r CIU a'r broses sydd i'w dilyn gan bartneriaid wrth ei lunio fod yn seiliedig ar y ddealltwriaeth ganlynol er mwyn cyflawni'r amcan o ddarparu gwasanaethau'n well:
- Rhaid i Lywodraeth Cymru a'i phartneriaid feddu ar ddealltwriaeth gyffredin o'r canlyniadau sydd â blaenoriaeth. Mae'r Rhaglen Lywodraethu yn darparu'r fframwaith cenedlaethol ar gyfer canlyniadau sydd â blaenoriaeth.
 - Bydd y canlyniadau pwysicaf yn ei gwneud yn ofynnol i wahanol bartneriaid gydweithio: ni allant eu datrys wrth weithredu ar wahân i'w gilydd. Mae gan y Bwrdd Gwasanaethau Lleol rôl strategol o ran rhoi arweiniad cydweithredol lleol.

- Dim ond drwy fesurau ataliol ac ymyrraeth gynnar y gellir sicrhau gwelliannau cynaliadwy yng nghyswllt *rhai* problemau cymdeithasol cynyddol, a rhaid i hyn fod yn seiliedig ar ddadansoddiad o'r angen nid y galw. Er mwyn cyflawni hyn, bydd angen gallu strategol a dadansoddol llawer cryfach, ar y lefelau corfforaethol ac amlasiantaethol, i gynnal gweithio mewn partneriaeth.
 - Er mwyn cael canlyniadau gwell, bydd angen gwaith mwy strategol i gomisiynu a darparu gwasanaethau a pharodrwydd i ailfeddwl, ailgynllunio a gwneud newidiadau ym mhob rhan o'r system. Mae'n hanfodol ymgysylltu â dinasyddion a'r gweithlu.
- 1.10. Rhaid i'r broses gael ei hategu hefyd gan linellau clir o atebolrwydd gweithredol a democrataidd am ddarparu gwasanaethau. Dylid nodi yn y cynllun ei hun sut y mae hyn i'w gyflawni drwy waith rheoli perfformiad effeithiol a phrosesau craffu lleol democrataidd.
- 1.11. Ystyrir bod cyflwyno cynlluniau integredig unigol yn herio awdurdodau lleol⁴ a'u partneriaid i gamu ymlaen â'u cydarweinyddiaeth a'i fod yn rhoi'r ffocws a'r ysgogiad angenrheidiol i wneud gwahaniaeth gwirioneddol a mesuradwy drwy ddarparu gwasanaethau effeithiol a gwella canlyniadau ar gyfer pobl sy'n byw yn eu cymunedau.

Yr Ymchwil

- 1.12. Mae Llywodraeth Cymru yn ystyried bod y canllawiau ar ddatblygu CIUau yn hyblyg ac yn llai penodol na chanllawiau polisi blaenorol. Roedd y canllawiau'n gosod patrwm bras ar gyfer CIUau, ond nid oeddent yn pennu dull o weithredu. Gan fod BGLlau wedi cael penderfynu drostynt eu hunain sut y byddent yn gweithredu'r

⁴ Mae'r term 'awdurdodau lleol' wedi'i ddefnyddio i ddisgrifio'r ardaloedd gweinyddol lle y mae proses y cynllun integredig unigol yn digwydd.

canllawiau, roedd nifer o ddulliau wedi'u mabwysiadu ac mae cryn wahaniaeth o ran arddull a chynnwys yn y cynlluniau terfynol. Sefydlwyd adolygiad interim er mwyn disgrifio'r amrywiaeth hon, meithrin dealltwriaeth o'r heriau a'r llwyddiannau a chyflwyno sylwadau am rôl Llywodraeth Cymru yn y dyfodol o ran dylanwadu ar CIUau.

- 1.13. Comisiynwyd yr Adolygiad gan yr arweinydd polisi dros gynllunio integredig ac fe'i cynhaliwyd gan Ymchwilyr Cymdeithasol Llywodraeth Cymru ar y cyd â myfyriwr PhD o Brifysgol DeMontfort a oedd wedi'i gyflogi'n intern yn unswydd ar gyfer yr adolygiad. Roedd hyn yn sicrhau bod yr adolygiad yn drwyadl a'i fod yn annibynnol ar y broses polisi, a'i gyloch gwaith oedd cynnig her a chyflwyno barn gytbwys. Mae tystiolaeth wrthrychol a geir o adolygiad o'r math hwn yn werthfawr iawn i lunwyr polisi pan fyddant yn penderfynu ar y cyfeiriad i'w ddilyn yn y dyfodol ac yn nodi meysydd sy'n galw am sylw penodol.

Nodau ac Amcanion

- 1.14. Nodau penodol yr ymchwil oedd:

- Asesu'r dulliau o ddatblygu a gweithredu CIUau, ynghyd â'r AUAau sy'n rhan ohonynt, yn yr holl awdurdodau lleol yng Nghymru.
- Casglu gwybodaeth am ffyrdd addawol o weithio y gellir eu trosglwyddo, ac am feysydd i'w gwella, er mwyn cyfrannu at ffurfio polisi ac ymarfer yn y dyfodol.

- 1.15. Amcanion yr ymchwil oedd:

Yng nghyswllt datblygu CIUau:

- darparu trosolwg, o safbwynt swyddogion arweiniol CIUau, dadansoddwyr data, Aelodau BGLlau a Chydgysylltwyr Partneriaethau, ar y gwahanol ffyrdd o lunio CIUau ac AUAu gan BGLlau;
- ystyried y prif heriau y mae BGLlau yn eu hwynebu wrth lunio CIUau;

Yng nghyswllt y gwersi a ddysgwyd:

- nodi meysydd i'w gwella ar gyfer datblygu CIUau;
- pennu arferion da y gellir eu trosglwyddo i BGLlau eraill;
- cynnig sylwadau hyd y gellir am y ffactorau sy'n allweddol ar gyfer paratoi cynlluniau integredig unigol yn effeithiol;
- cynnig sylwadau am y rhan y dylai Llywodraeth Cymru ei chwarae mewn hybu gwaith ar gynlluniau integredig unigol yn y dyfodol.

2. Methodoleg

- 2.1 Er mwyn cael dealltwriaeth o'r ffyrdd y mae BGLlau wedi dehongli canllawiau Llywodraeth Cymru ar CIUau, cyfweliadau ansoddol oedd y dull mwyaf addas o gyflawni nodau ac amcanion yr ymchwil. Gan fod y rhan fwyaf o awdurdodau lleol wedi dechrau'n eithaf diweddar ar ddatblygu CIU, roedd yn bwysig cael dealltwriaeth lawn o'r arferion sy'n codi er mwyn nodi amrywiadau a ffyrdd newydd o weithio. Felly, fel yr ydym yn egluro isod, defnyddiwyd dull a oedd yn seiliedig at gyfweliadau ansoddol ag unigolion (a grwpiau mewn rhai achosion), wedi'i ategu gan ddadansoddiad dogfennol o'r cynlluniau eu hunain.
- 2.2 Rhwng Tachwedd 2012 ac Ebrill 2013, cynhaliwyd ymchwil a oedd yn cynnwys gwaith desg a gwaith maes ar y dulliau o ddatblygu a gweithredu Cynlluniau Integredig Unigol ym mhob rhan o Gymru. Mae'r adroddiad yn crynhoi canfyddiadau'r ymchwil hon ac yn eu defnyddio i gwrdd â'r amcanion sydd wedi'u nodi uchod.
- 2.3 Yn rhan gyntaf yr ymchwil cafwyd adolygiad o ddeunydd ac arolwg o ddogfennau cefndir a oedd yn ymwneud â CIUau, gan gynnwys canllawiau Llywodraeth Cymru a gyhoeddwyd ym Mehefin 2012. Roedd hyn yn rhoi'r wybodaeth angenrheidiol am y cyd-destun er mwyn symud ymlaen â'r ymchwil, ac i lunio'r amserlenni ar gyfer cyfweliadau a'r canllawiau testunau i'w defnyddio yn y gwaith maes (gweler Atodiad 1).
- 2.4 Ar ôl cwblhau'r adolygiad o ddeunydd, dadansoddwyd rhagor o ddogfennau gan gynnwys CIUau a'r AUAau a oedd yn rhan ohonynt. Er bod nodau ac amcanion yr ymchwil yn ymwneud yn bennaf â deall y prosesau ar gyfer datblygu CIUau ac AUAau yn hytrach na gwerthuso'r cynlluniau eu hunain, roedd y math hwn o ddadansoddi dogfennol yn rhoi gwybodaeth bwysig am y cyd-

destun a fyddai hefyd o gymorth wrth gasglu data ar gyfer yr ymchwil.

2.5 Wedyn cynhaliwyd cyfres o gyfweiliadau lled-strwythuredig ar gyfer yr ymchwil maes gan gynnwys sgysiau â swyddogion arweiniol CIUau mewn BGLlau a dadansoddwyr data sy'n gyfrifol am lunio a gweithredu CIUau. Roedd pob un o'r 22 o awdurdodau lleol wedi cymryd rhan yn yr ymchwil. Gan fod y trefniadau ar gyfer llunio CIUau yn amrywio rhwng awdurdodau lleol, roedd gwahaniaeth yn nifer y bobl a gyfwelwyd ym mhob awdurdod. Mewn rhai achosion, roedd yn well gan bobl gael eu cyf-weld mewn grŵp, a darparwyd ar gyfer hyn. Er enghraifft, mewn llawer o achosion, roedd mwy nag un dadansoddwr data wedi bod yn gysylltiedig â llunio AUA yr awdurdod. At ei gilydd, cyfwelwyd mwy na 40 o swyddogion arweiniol CIUau a dadansoddwyr data ledled Cymry yn ystod ail ran yr ymchwil.

2.6 Yn gyffredinol, roedd y cyfweiliadau wedi'u seilio ar bum thema allweddol:

- Yr ymateb cyffredinol i gysyniad y CIU;
- Y camau cynllunio wrth lunio'r CIU;
- Llunio'r CIU;
- Y goblygiadau ym mhroses y CIU o ran strwythurau partneriaeth a darparu gwasanaethau;
- Myfyrio beirniadol ynghylch y broses gyfan.

2.7 Addaswyd strwythur y cyfweiliadau yn ôl rôl y rhai a holwyd (Swyddog Arweiniol y CIU / Dadansoddwr Data). Mae canllaw testunau enghreifftiol yn Atodiad 1.

2.8 Er mwyn triongli'r dystiolaeth a gasglwyd yn y rhan gyntaf hon o'r ymchwil maes, cynhaliwyd cyfweiliadau pellach ag aelodau BGLlau a chydgysylltwyr Partneriaethau Plant a Phobl Ifanc. Roedd y

cyfweiliadau hyn yn dilyn trywydd tebyg i'r rheini a gynhaliwyd â swyddogion arweiniol CIUau a dadansoddwyr data.

2.9 Ar ôl casglu'r data, cawsant eu codio a'u dadansoddi ar sail themâu er mwyn tynnu sylw at arferion da wrth ddatblygu CIUau, ynghyd â meysydd allweddol i'w gwella. O ganlyniad i hyn, mae'r adran canfyddiadau yn yr adroddiad wedi'i threfnu ar sail chwe thema allweddol:

- Y Cynllun a'i Fethodoleg
- Y Sylfaen Dystiolaeth a'r Ffordd o'i Dadansoddi
- Ymgysylltu â Dinasyddion
- Gweithio mewn Partneriaeth
- Adnoddau
- Monitro Cynnydd

2.10 Dilynwyd canllawiau moesegol Ymchwil Gymdeithasol y Llywodraeth a'r Gymdeithas Ymchwil Gymdeithasol drwy gydol yr ymchwil, a glynodd yr ymchwilwyr wrth restr wirio moeseg Ymchwil Gymdeithasol y Llywodraeth. Rhoddwyd gwybod i'r holl gyfranogwyr beth fyddai cyfranogi'n ei olygu cyn iddynt gytuno i gymryd rhan. Roedd cyfranogwyr hefyd yn gallu tynnu'n ôl ar unrhyw adeg. Yr unig gyfeiriadau at awdurdodau lleol wrth eu henw yn yr adroddiad yw'r rheini sy'n tynnu sylw at arferion da mewn ardaloedd penodol. Gofynnwyd am gydsyniad y rhai a gyfwelwyd yn yr achosion hyn.

Trefn yr adroddiad

2.11 Mae gweddill yr adroddiad wedi'i drefnu fel a ganlyn:

2.12 Mae Adran 1 uchod wedi egluro'r cyd-destun polisi i'r ymchwil a gynhaliwyd, gan gynnwys trosolwg ar ganllawiau Llywodraeth Cymru 'Cydamcanu – Cydymdrechu'.

- 2.13 Yn Adrannau 3 i 8 rydym yn asesu'r gwahaniaethau yn y dulliau o ddatblygu CIUau rhwng BGLlau. Mae'r adrannau hyn wedi'u seilio ar y themâu allweddol: y cynllun a'i fethodoleg; y sylfaen dystiolaeth a'r ffordd o'i dadansoddi; ymgysylltu â dinasyddion; gweithio mewn partneriaeth; adnoddau; a monitro cynnydd – mae'r rhain wedi'u hegluro uchod. Mae pob un o'r adrannau'n disgrifio'r datblygiadau sy'n digwydd ac yn edrych ar yr arferion da, ynghyd â'r heriau a'r gwersi a ddysgwyd.
- 2.14 Ceir crynodeb yn Adran 9 ac mae'r argymhellion ar gyfer gweithredu yn y dyfodol wedi'u dangos yn glir hefyd.

3. Y Cynllun a'i Fethodoleg

Plan and its methodology	Y cynllun a'i fethodoleg
outcomes	canlyniadau
inclusive approach	dull cynhwysol
citizen engagement	ymgysylltu â dinasyddion
RBA	Atebolrwydd Seiliedig ar Ganlyniadau

3.1 Yn y Bennod hon rydym yn edrych ar nifer o dulliau newydd o ddatblygu canlyniadau ar gyfer CIUau, yn bennaf yng nghydestun ffyrdd o feddwl sy'n seiliedig ar ganlyniadau fel Atebolrwydd Seiliedig ar Ganlyniadau – dull a fabwysiadwyd gan Lywodraeth Cymru mewn nifer o'i rhaglenni allweddol ac sy'n gyffredin bellach mewn llywodraeth leol, ym maes iechyd, yn y trydydd sector ac mewn rhannau o wasanaethau cyhoeddus.

Ffyrdd o feddwl sy'n seiliedig ar ganlyniadau: Y cyd-destun

3.2 Mae Llywodraeth Cymru wedi dechrau mabwysiadu dulliau seiliedig ar ganlyniadau mewn llawer o'i gwaith cynllunio a gwaith polisi, fel y gwelir yn ei Rhaglen Lywodraethu, mewn deddfwriaeth ddiweddar ac mewn datganiadau polisi.

3.3 Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn annog y sector cyhoeddus ehangach yng Nghymru i ddefnyddio'r dull hwn, yn fwyaf diweddar drwy ddatblygu Cynlluniau Integredig Unigol a'r pwyslais ar wella canlyniadau i bobl Cymru (sydd wedi'i egluro yng nghanllawiau Llywodraeth Cymru ar CIUau).

3.4 Yng nghydestun CIUau, y brif fethodoleg seiliedig ar ganlyniadau oedd y dulliau Atebolrwydd Seiliedig ar Ganlyniadau a

ddefnyddiwyd gan swyddogion arweiniol CIUau a dadansoddwyr data.

Beth yw Atebolrwydd Seiliedig ar Ganlyniadau?

- 3.5 Mae dulliau sy'n seiliedig ar ganlyniadau'n deillio o'r mudiad Rheolaeth Gyhoeddus Newydd (RhGN) yn y 1980u. Yn gyffredinol, roedd RhGN wedi'i hysgogi gan alwadau am wasanaethau cyhoeddus mwy effeithlon ac ymatebol, pryderon ynghylch diffygion cynyddol mewn cyllidebau a'r angen canfyddedig am fwy o atebolrwydd (Halton a Schroeder 2007). Y canlyniad cyffredinol i ddulliau RhGN oedd cyflwyno strategaethau'r farchnad mewn rheolaeth ar wasanaethau cyhoeddus a hyrwyddo ffordd o weithredu sy'n canolbwyntio ar y cleient. Roedd dulliau wedi'u seilio ar ganlyniadau, fel Rheolaeth neu Atebolrwydd Seiliedig ar Ganlyniadau (ASG), yn un agwedd ar y diwygiadau hyn a oedd yn rhoi pwyslais ar atebolrwydd wedi'i seilio ar berthnasedd y canlyniadau.
- 3.6 Gan amlaf, byddai BGLlau yn cyfeirio at ddefnyddio dulliau ASG yng nghyd-destun methodoleg Mark Friedman. Yn ei lyfr 'Trying Hard is Not Good Enough: How to Produce Measurable Improvements for Customers and Communities' (2005), mae Friedman yn disgrifio sut y datblygodd ASG o ganlyniad i'w brofiad yn y sector cyhoeddus a sylweddoli na ddylid canolbwyntio ar gael 'mwy o arian ar gyfer rhaglenni' ond ar 'gamu'n ôl a meddwl am bwrpas ein gwaith'.
- 3.7 Honnir bod y dull ASG wedi'i wreiddio mewn synnwyr cyffredin ac mae'n rhoi pwyslais ar bwysigrwydd 'canlyniadau' a'u heffaith ar fywydau pobl. Y man cychwyn ar gyfer ASG yw'r llinell derfyn. Hynny yw, byddwch yn dechrau drwy feddwl am yr hyn yr ydych am ei gyflawni ac yn gweithio'n ôl fesul cam i benderfynu'r dull o geisio cyrraedd y sefyllfa derfynol honno, gan gynnwys yr holl sefydliadau ac asiantaethau perthnasol wrth wneud hynny.

- 3.8 Mae nifer o gyfyngiadau ar y dull ASG a fydd yn achosi her wrth ei weithredu os na roddir sylw dyladwy iddynt. Er enghraifft, mae Friedman ei hun yn nodi bod rhaid i bob sefydliad fod o blaid gweithio mewn partneriaeth os yw'r canlyniadau i gael eu gwireddu. Gall diwylliant y sefydliad effeithio ar ei ganfyddiad o'i rôl wrth weithio mewn partneriaeth. Mae hefyd yn hanfodol bod pob parti'n meddu ar ddealltwriaeth gyffredin o ASG a'i oblygiadau. Bydd yn bwysig hefyd fod data o ansawdd digonol ar gael a bod gwybodaeth gefndir drwyadl i'w hategu bob amser.
- 3.9 Ni fydd yn hawdd goresgyn y rhwystrau hyn ym mhob achos, fel yr ydym yn trafod isod.

ASG a Chanlyniadau'r CIU

- 3.10 Roedd y rhan fwyaf o BGLlau wedi dilyn yr egwyddor o ddewis canlyniadau cyffredin yn fan cychwyn ar gyfer datblygu'r CIU, gan ddefnyddio dulliau ASG yn effeithiol i lywio'r cynllunio strategol.
- 3.11 Fel arfer byddai canlyniadau'n cael eu pennu mewn gweithdai. Yn y gweithdai, roedd rhanddeiliaid allweddol yn cael eu gwahodd i drafod a chytuno ar y blaenoriaethau ar gyfer eu hardal. Cyn datblygu asesiad unedig o anghenion (AUA), roedd partneriaid yn cael cyfle i gyfrannu at bennu ffurf derfynol y CIU. Roedd partneriaid hefyd yn gallu trafod sut y gallent gyfrannu at wireddu canlyniadau.
- 3.12 Mewn rhai achosion roedd y broses o gytuno ar ganlyniadau cyffredinol y CIU yn cael ei gweld yn 'syml' gan fod y prif broblemau a oedd yn wynebu awdurdodau lleol yn 'amllwg'.

“Cynhaliwyd nifer o weithdai gyda'n partneriaid er mwyn pennu ein canlyniadau. At ei gilydd, cytunwyd yn eithaf cyflym ar ganlyniadau'r CIU.”

- 3.13 Gan mwyaf, roedd BGLlau yn sylweddoli bod canlyniadau'n gydgysylltiedig, ac y bydd gwelliant mewn un maes yn arwain at welliannau mewn meysydd eraill.
- 3.14 Teimlwyd bod cydweithio cynnar wedi cyfrannu at yr ymrwymiad a'r brwdfrydedd tuag at gysyniad cyffredinol y CIU. Roedd hefyd yn helpu i "feithrin diwylliant cynhwysol":
- "Am fod y partneriaid yn teimlo eu bod yn cymryd rhan o'r dechrau, pan oeddem yn trafod canlyniadau, roedd ymdeimlad o berchenogaeth [...] Credaf fod y ffaith eu bod wedi'u cynnwys yn gynnar yn y broses yn egluro pam y mae rhai ohonynt wedi bod â mwy o ymrwymiad i'r CIU."*
- 3.15 Gan amlaf, byddai awdurdodau lleol yn dewis nifer bach o ganlyniadau, rhwng tri a phedwar. Teimlwyd bod hyn wedi arwain at flaenoriaethu gwirioneddol ar anghenion y Sir.
- 3.16 Nododd nifer o swyddogion arweiniol CIUau fod BGLlau yn awyddus i sicrhau bod canlyniadau wedi'u geirio mewn ffordd a oedd yn dangos bod yr awdurdod wedi 'integreiddio blaenoriaethau':
- "Gwnaethom sicrhau na fyddai themâu penodol yn cyfateb i un bartneriaeth yn unig."*
- 3.17 Rhai o'r enghreifftiau yw:
- "Cefnogi teuluoedd" – yn cynnwys mynd i'r afael â thlodi a hybu iechyd a lles teuluoedd;
 - "Byw'n annibynnol" – yn cynnwys gwella iechyd a lles, diogelwch yn y cartref neu'r gymuned a/neu sicrhau bod pobl hŷn yn cael y modd materol i gynnal eu cartref;
 - "Economi a lle" – yn cynnwys cymorth i fusnesau, dysgu sgiliau er mwyn cael cyflogaeth a/neu wella'r amgylchedd naturiol.
- 3.18 Yn gyffredinol, roedd cydnabyddiaeth bod gweithdai "Turning the Curve", y defnydd o gardiau adrodd ASG, a phennu dangosyddion

poblogaeth yn ffyrdd defnyddiol o hyrwyddo ffyrdd o feddwl sydd wedi'u seilio ar anghenion cyffredin. At ei gilydd, teimlwyd y byddai mabwysiadu methodolegau seiliedig ar ganlyniadau i ffurfio, gweithredu a monitro cynlluniau yn gallu arwain at well canlyniadau ar lefel y Sir yn y dyfodol.

Meysydd allweddol i'w hystyried

- 3.19 Roedd rhai BGLlau wedi datblygu canlyniadau yng nghyd-destun y strwythurau partneriaeth presennol. Oherwydd hyn mae'n fwy tebygol y bydd partneriaid yn canolbwyntio ar wireddu canlyniadau yn eu meysydd eu hunain, gan weithio ar wahân i'w gilydd.
- 3.20 Roedd yn well gan rai BGLlau bennu nifer mwy o ganlyniadau ar gyfer eu CIU. Nid yw'n glir beth yw'r nifer gorau o ganlyniadau ar gyfer CIU. Er ei bod yn anochel y bydd canlyniadau'n dibynnu ar flaenoriaethau lleol, gellid barnu bod pennu 10 canlyniad yn fethiant o ran blaenoriaethu. Unwaith eto, gallai hyn beri i bartneriaid droi'n ôl at weithio ar wahân i'w gilydd os byddant yn gallu dewis un canlyniad y teimlant yn fwyaf hyderus ynghylch ei wireddu.
- 3.21 Yn aml, roedd dryswch ynghylch ystyr termau yn arwain at gamddeall y dull ASG. Er enghraifft:
- “Rhaid cyfaddef bod rhywfaint o ddrysu rhwng gweledigaethau a chanlyniadau, canlyniadau ac egwyddorion.”*
- “Mae rhai pobl yn cyfeirio at ganlyniadau yn lle themâu a chanlyniadau yn lle blaenoriaethau.”*
- “Yn y pen draw, ar ôl cynnal y rhaglenni hyfforddi ASG, bydd pobl yn mynd yn ôl i'w swyddi pob dydd ac ni fydd yr hyfforddiant ASG wedi ymwreiddio.”*
- 3.22 Yn wir, bydd sicrhau bod termau cyffredin yn cael eu defnyddio ar gyfer ASG yn gymorth wrth ddatblygu CIUau yn y dyfodol.

- 3.23 Dylid hybu trafodaeth am ddulliau eraill o ddefnyddio ASG, fel dadansoddi cyfraniadau a 'talking points'⁵, rhwng Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol, ac o fewn yr awdurdodau lleol eu hunain.
- 3.24 Roedd y cymhwysedd a'r galluogrwydd ynghylch defnyddio ASG yn amrywio rhwng awdurdodau lleol. Rydym yn trafod hyn yn fwy manwl ym Mhennod 7.

⁵ <http://www.jitscotland.org.uk/action-areas/talking-points-user-and-carer-involvement/>

4. Y Sylfaen Dystiolaeth a'r Ffordd o'i Dadansoddi

- 4.1 Mae CIUau i gael eu seilio ar asesiad anghenion strategol a fydd yn cymryd lle'r asesiadau o anghenion penodol a gynhelid o'r blaen ar gyfer gwahanol gynlluniau. Ceir cyngor defnyddiol yng nghanllawiau Llywodraeth Cymru ar y dull o gynhyrchu asesiad unedig o anghenion, y manteision y bydd yn eu rhoi, ffynonellau tystiolaeth priodol, a'r heriau y gall BGLlau eu hwynebu ar y ffordd. Fodd bynnag, nid yw'r canllawiau'n rhagnodi dulliau a ffyrdd o weithio, a hyn sy'n gyfrifol am yr amrywiaeth o ddulliau sydd wedi'u defnyddio gan awdurdodau lleol i asesu anghenion.
- 4.2 I'r rhan fwyaf o awdurdodau lleol, roedd 'asesu anghenion' yn golygu pennu'r problemau mwyaf perthnasol yr oedd cymunedau lleol yn eu hwynebu a'u rhoi yn nhrefn blaenoriaeth. Hynny yw, roedd yn golygu asesu'r sefyllfa bresennol yn eu sir. Yr enw a roddir ar y dull hwn yn yr adroddiad yw 'dadansoddi'r sefyllfa'.
- 4.3 Mewn awdurdodau lleol eraill, roedd y cysyniad o asesu anghenion yn fwy eang ac yn cwmpasu amrywiaeth fawr o weithgareddau, gan gynnwys llunio dadansoddiad o'r sefyllfa ynghyd â darganfod problemau mewn cymdogaethau, egluro pam y mae rhai pobl yn fwy agored i effaith problemau penodol na phobl eraill, ac adnabod cyfleoedd i wella'r sefyllfa bresennol. Hynny yw, roeddent yn canolbwyntio ar ddeall pa ymyriadau a all wella bywydau pobl yn y sir (ac mewn rhai achosion, gweithredu'r ymyriadau hyn).
- 4.4 Os oes modd, dylai'r AUA gynnig dadansoddiad trwyadl o'r sefyllfa bresennol (y 'dadansoddiad o'r sefyllfa') a hefyd ceisio dangos sut y gall partneriaethau ymateb yn effeithiol i'r sefyllfa (y 'dadansoddiad o'r ymateb').

Y Dadansoddiad o'r Sefyllfa

Situation Analysis	Dadansoddi'r Sefyllfa
Data development	Datblygu data
Story behind the data	Gwybodaeth gefndir am y data
Baselines and trends	Gwaelodlinau a thueddiadau
Baseline forecast	Rhagolwg ar sail y gwaelodlin

Beth sy'n digwydd?

- 4.5 A siarad yn gyffredinol, roedd gwahaniaeth amlwg rhwng yr awdurdodau a oedd yn ceisio cynnwys partneriaethau ac asiantaethau wrth lunio dadansoddiad o'r sefyllfa a'r rheini a oedd yn canolbwyntio ar gyfuno data a oedd yn cael eu dal gan y partneriaethau presennol.

Ymgysylltu

- 4.6 Roedd nifer o BGLlau wedi datblygu dadansoddiad o'r sefyllfa drwy ymgysylltu â phartneriaid cynllunio, sefydliadau ac asiantaethau er mwyn pennu canlyniadau, mesurau canlyniadau, dangosyddion perfformiad a setiau data, drwy drafodaethau bord gron, gweithdai, grwpiau ysgrifennu neu seminarau. Yn yr achosion hyn, cafwyd ymdrech i ddatblygu dadansoddiad o'r sefyllfa drwy gydweithio, ac roedd y rheini a oedd â gwybodaeth am faterion lleol wedi'u cynnwys ym mhob cam wrth greu sylfaen dystiolaeth.
- 4.7 Nid oedd rhai awdurdodau lleol wedi cynnal gwerthusiad newydd o anghenion i hyrwyddo trafodaeth ymysg partneriaid cynllunio ac asiantaethau. Yn hytrach, eu man cychwyn oedd pennu set o ddangosyddion poblogaeth er mwyn cynnal dadansoddiad o'r sefyllfa. Yn aml roedd y dangosyddion poblogaeth hyn wedi'u

datblygu gan grwpiau asesu anghenion strategol neu grwpiau ymchwil a gwybodaeth.

- 4.8 Roedd y dull hwn wedi'i gyfiawnhau drwy ddweud bod anghenion cyffredinol yr ardal yn amlwg gan mwyaf neu eu bod wedi'u canfod drwy gynlluniau'r partneriaethau presennol, ac felly mai'r dasg allweddol ar y pryd oedd "pennu dangosyddion poblogaeth yn gyntaf ... ac wedyn darparu'r gwaelodlin a'r wybodaeth gefndir am y data ar gyfer nifer llai o ddangosyddion poblogaeth yn unig".
- 4.9 Mewn hinsawdd lle y mae adnoddau'n brin, mae'n ymddangos bod y dull hwn yn bragmataidd ac effeithlon, er bod nifer o'r rhai a gyfwelwyd wedi awgrymu y gellid 'methu rhywbeth' wrth asesu'r sefyllfa yn y modd hwn. Yn sicr, mae hyn yn berygl amlwg a gellid dadlau ei fod yn mynd yn groes i fwriad canolog y CIU, sef blaenoriaethu ac amlhau'r effaith o weithio mewn partneriaeth, ar sail darlun manwl a chyfredol o anghenion lleol.
- 4.10 Gan amlaf, roedd awdurdodau lleol yn casglu tystiolaeth helaeth drwy gydweithio, ac roedd hyn yn arwain at lunio dadansoddiad trwyadl o'r sefyllfa i'w ddefnyddio gan weithdai i ddod i ganfyddiadau ar sail y wybodaeth. Dim ond wedyn y byddai dangosyddion poblogaeth yn cael eu pennu.
- 4.11 Y thema sy'n gyffredin i'r ddau ddull yw bod yr awdurdodau lleol sy'n 'ymgysylltu' wedi cymryd camau i gynnwys sefydliadau ac asiantaethau y credwyd eu bod yn dal gwybodaeth leol ar ryw adeg wrth gasglu data i gynnal dadansoddiad o'r sefyllfa.

Cyfuno data

- 4.12 Roedd gweddill yr awdurdodau'n canolbwyntio ar gyfuno data drwy broses a oedd weithiau'n cael ei chyflawni gan un dadansoddwr data. Gwelwyd bod y broses o gynnwys partneriaid cynllunio,

asiantaethau a sefydliadau er mwyn llunio AUA yn llai trwyadl yn yr achosion hyn. Mewn rhai awdurdodau, roedd y gwaith o ddatblygu dadansoddiad o'r sefyllfa yn cael ei weld yn dasg ar wahân; ymarferiad pen bwrdd a oedd yn dod â nifer o'r dogfennau presennol at ei gilydd. Roedd yn ddigon posibl bod y dadansoddiad sefyllfa gorffenedig yn cynnwys sawl math o ddata, ond nid oedd yn glir ym mhob achos i ba raddau yr oedd asiantaethau a sefydliadau eraill wedi'u cynnwys ym mhroses y CIU. Wedi dweud hyn, roedd prinder yr ymgysylltu'n ganlyniad weithiau i'r gred bod partneriaid cynllunio wedi'u cynnwys yn barod wrth lunio'r cynlluniau partneriaeth blaenorol yn 2010, ac felly bod partneriaid eisoes wedi'u cynnwys mewn rhyw ffordd.

Datblygu Data

- 4.13 Roedd yr holl BGLlau wedi cael bod yr 'ymarferiad gwaelodlin' (ASG) yn ddefnyddiol gan ei fod yn eu galluogi i adnabod tueddiadau hanesyddol mewn problemau lleol, ac yn cynnig ffordd o fesur cynnydd.
- 4.14 Mewn rhai achosion, roedd yr Uned Ddata wedi chwarae rhan allweddol yn yr ymarferiad hwn, drwy helpu i ddarparu data (hanesyddol) i nifer o BGLlau. Er hynny, cawsom ein hatgoffa bod costau'n gallu codi drwy gomisiynu gwaith gan yr Uned Ddata Llywodraeth Leol, a'i bod yn bosibl na fydd y dull hwn yn gynaliadwy (gweler hefyd Adran 6 ar 'Adnoddau').
- 4.15 Wedi dweud hyn, roedd nifer o BGLlau wedi trefnu gwaith i ddatblygu data o ganlyniad i lunio'r dadansoddiad o'r sefyllfa, gan fod yr ymarferiad wedi dangos bod y data presennol o ansawdd gwael neu heb fod ar gael o gwbl. Roedd llawer yn cydnabod mai dim ond ciplun o anghenion ar adeg benodol a geir drwy gynnal dadansoddiad o'r sefyllfa, ac felly bod angen diweddarau data yn rheolaidd. Amcan y gwaith ar ddatblygu data oedd sicrhau bod

setiau data allweddol ar gael a'u bod yn gywir ac yn hawdd eu deall.

4.16 Rhai o'r strategaethau cyffredin ar gyfer datblygu systemau data a gwybodaeth oedd:

- Creu grwpiau llywio;
- Defnyddio gwasanaethau'r Uned Ddata Llywodraeth Leol;
- Creu 'Tiriau Gwybodaeth';
- Creu mwy o allu i ddadansoddi drwy greu swyddi newydd.

Meysydd allweddol i'w hystyried

4.17 Nodwyd mai'r rhwystrau a'r heriau a oedd yn codi amlaf oedd:

- Amser – Teimlwyd mai 'newydd gael eu datblygu' yr oedd y cynlluniau partneriaeth blaenorol, a bod Llywodraeth Cymru yn pwysu am ddull diwygiedig o gynllunio strategol 'cyn i'r inc sychu' ar y dogfennau hyn.
- Y dasg feichus o lunio dogfen yr oedd disgwyl iddi gynnwys yr holl ddata sy'n ymwneud â holl flaenoriaethau'r partneriaethau.
- Materion sy'n ymwneud â chymhwysedd a galluogrwydd.

4.18 Teimlai rhai awdurdodau lleol fod y dasg o lunio dadansoddiad o'r sefyllfa yn ormod iddynt gan fod disgwyl yn awr i "un ddogfen gynnwys yr holl ddata ar yr holl faterion ... Mae'n anodd gwybod beth sy'n berthnasol a beth sy'n amherthnasol." Mewn rhai achosion, roedd yn ymddangos bod data wedi cael eu casglu heb amcan clir, fel bod y ddogfen derfynol yn anhylaw gan ei bod yn cynnwys yr holl ddata a oedd ar gael. Yn aml, roedd hyn yn golygu bod y dadansoddiad o'r sefyllfa a gafwyd yn ddisgrifiadol, yn hollgynhwysol, ac o natur lai dadansoddol neu strategol – gan gyflwyno nifer mawr o siartiau a thablau heb lawer o eglurhad na chyd-destun na gwybodaeth gefndir i esbonio'r gwaelodlin.

- 4.19 Fel y nodwyd uchod, mewn rhai achosion roedd yr AUA wedi'i ddatblygu gan un dadansoddwr data ar ei ben ei hun. Weithiau roedd hyn yn ganlyniad i broblemau ynghylch cymhwysedd a galluogrwydd, sy'n ymddangos yn gyffredin ac yn sylweddol mewn awdurdodau lleol yn benodol. Gall peryglon godi o gael un swydd yn gyfrifol am lunio dogfen mor gynhwysfawr. Mewn achosion o'r fath, nid oedd yn glir ychwaith faint o ran yr oedd partneriaid cynllunio a sefydliadau wedi'i chwarae wrth ddatblygu'r AUA, heblaw drwy ddarparu data i'w defnyddio gan y dadansoddwr data i bennu'r gwaelodlin/blaenoriaethau. Fel y dywedodd dau o'r cyfranogwyr, y canlyniad oedd bod y dadansoddiad o'r sefyllfa:

"... yn gasgliad o'r asesiadau o anghenion sydd wedi'u gwneud. Roedd yn debycach i ymarferiad pen bwrdd."

"Ynghylch ein CIU ... mae fel pe baem wedi rhoi'r pedwar cynllun blaenorol gyda'i gilydd mewn un ddogfen, dim ond bod y ffont yn llai. Does dim byd wedi newid."

Llunio Dadansoddiad o'r Sefyllfa – Ffyrdd o wella

- 4.20 Yn y rhan fwyaf o'r AUAau nid oedd unrhyw dystiolaeth ansoddol i wrthbwysu a rhoi cyd-destun i'r dystiolaeth feintiol, fel bod y cynlluniau wedi'u seilio gan mwyaf ar ddadansoddiad ystadegol eithaf arwynebol. Mae hyn yn cyfyngu'r gallu i ddeall mecanweithiau achosol ac yn aml yn diystyru ffactorau cyd-destunol a all effeithio ar y data a welir ar gyfer gwahanol ardaloedd (e.e. lle y ceir lefelau uchel o ddiweithdra hirdymor, nid yr un fydd yr achosion sylfaenol ym mhob ardal, ond ni fydd y data sydd ar gael yn dangos y cyd-destun hanesyddol).
- 4.21 Mae'n bwysig cynnwys data ansoddol am achosion sylfaenol problemau cymdeithasol yn y dadansoddiad o'r sefyllfa. Drwy daflu goleuni ar ffactorau cymhleth o ran ymddygiad, cymdeithas, diwylliant, yr amgylchedd a'r economi yng nghyswllt problemau

lleol hirsefydlog, gellir helpu i bennu ffyrdd effeithiol o ymyrryd (gweler isod hefyd). Gellid cyflawni hyn drwy'r canlynol:

- Gwell dealltwriaeth o 'safbwynt y dinesydd', y gellid ei chael drwy: 1) cynnwys dinasyddion yn fwy uniongyrchol yn y broses gynllunio neu 2) gwneud defnydd o dystiolaeth a gwerthusiadau sydd ar gael (gweler hefyd Adran 5 ar Ymgysylltu â Dinasyddion);
- Cyfuno gwybodaeth o waith ymchwil sydd wedi'i gwblhau / pennu bylchau mewn gwybodaeth;
- Creu cysylltiadau â sefydliadau academaidd sy'n ymchwilio i bynciau sy'n berthnasol i awdurdodau lleol a CIUau, neu sy'n barod i gymryd rhan mewn trafodaethau ynghylch gwella'r sylfaen dystiolaeth ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus.

4.22 Gellid dadansoddi ystadegau'n well. Darparwyd llawer o graffiau, siartiau a chyfartaleddau ond nid yw ystadegau wedi'u dadansoddi i ragfynegi neu ddod i gasgliadau ynghylch poblogaethau drwy arsylwi a dadansoddi samplau. Gellid cael dehongliad mwy soffistigedig mewn dogfennau o'r fath drwy ddadansoddi cydberthyniadau ac atchweliad.

4.23 Drwy gymryd bod dadansoddiadau o'r sefyllfa i'w cynnal yn rheolaidd, gellir meithrin diwylliant cynaliadwy ynghylch cyflawni asesiadau o anghenion. Gyda golwg ar hyn, dylai datblygu data gael ei bennu'n flaenoriaeth mewn awdurdodau lleol lle y cafwyd bod problemau o ran ansawdd / argaeledd data.

4.24 Yng ngolwg y pwyntiau uchod, gallai Llywodraeth Cymru roi ystyriaeth hefyd i'r canlynol:

- Hwyluso gwelliannau mewn gallu dadansoddol ar lefel yr awdurdod lleol, er bod hyn yn digwydd eisoes drwy waith Pwyllgor Cyswllt Ystadegol Cymru. Mae'r Pwyllgor yn datblygu cymuned ymarfer ar gyfer dadansoddwyr sy'n ymwneud â CIUau. Hefyd mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi'r Uned Ddata sy'n arwain ar ddatblygu 'LSB Insight'.

- Rhoi adborth ar AUAau, a allai helpu awdurdodau lleol i wella'r ffurfiau presennol;
- Arwain ar bennu set unigol o ganlyniadau poblogaeth. Gallai hyn greu mwy o gysondeb rhwng AUAau.
- Darparu astudiaethau achos o arferion da a allai fod o gymorth.
- Gallai fod yn fuddiol hefyd i Lywodraeth Cymru ystyried datblygu canllawiau ar set o safonau sylfaenol ar gyfer llunio asesiadau anghenion strategol yn y dyfodol.

Y Dadansoddiad o'r Ymateb

Response analysis	Dadansoddi'r ymateb
Best known practices (Research)	Yr arferion gorau sy'n hysbys (Ymchwil)
Root causes (Research)	Achosion sylfaenol (Ymchwil)
Neighbourhood management model	Model rheoli cymdogaethau

- 4.25 Teg yw dweud bod y rhan fwyaf o awdurdodau lleol wedi datblygu dadansoddiad o'r sefyllfa a oedd yn cynnwys anghenion â blaenoriaeth, dangosyddion poblogaeth a mesurau perfformiad, wedi'i ategu gan amrywiaeth o graffiau a thablau. Yn y rhan fwyaf o achosion, cafwyd ymdrech i egluro cefndir y data. Cyfeiriwyd at gyfyngiadau'r dogfennau hyn uchod.
- 4.26 Yn sicr, mae trafodaethau bord gron (rhwng dadansoddwyr) neu grwpiau asesu anghenion strategol yn ffordd effeithiol o gydweithio a grymuso, a gallant helpu i gyfleu amcanion cyffredinol y CIU i'r cyfranogwyr allweddol. Er hynny, nid oedd bob amser yn glir sut yr oedd y CIU i gael ei roi ar waith yn lleol, na pha ymchwil a oedd wedi'i gwneud ynghylch cyflawni neu ddylanwadu ar ganlyniadau arfaethedig y CIU. Er bod rhai awdurdodau lleol wedi cynnig enghreifftiau o ffyrdd effeithiol o lunio dadansoddiad o'r sefyllfa y gallai awdurdodau lleol eraill eu mabwysiadu, y cwbl a gafwyd mewn trafodaethau ynghylch 'cyflawni' oedd disgrifiad o'r ffordd yr oedd sefydliadau wedi dod at ei gilydd i lunio un ddogfen gyffredinol ar anghenion.
- 4.27 Prin iawn oedd yr awdurdodau lleol a wnaeth fwy nag egluro'r cefndir i nifer o setiau data a oedd wedi'u casglu. Nid oedd yr AUA yn cael ei weld ym mhob achos yn gyfle i ddisgrifio 'ymyriadau', er

mwyn dangos i BGLlau beth yw'r mathau o ymyriadau sy'n fwyaf effeithiol i ddelio â phroblemau cymdeithasol penodol ar sail dadansoddiad o'r dystiolaeth.

- 4.28 Mae'n hanfodol bwysig llunio 'dadansoddiad o'r ymateb' sy'n cynnwys ystyriaeth i adroddiadau am ymyriadau cydnabyddedig perthnasol ar lefel leol, genedlaethol neu ryngwladol sy'n effeithio mewn rhyw ffordd ar y problemau cymdeithasol a nodwyd. Yn y pen draw, dylid ystyried yr AUA yn gyfrwng i ddylanwadu ar ffyrdd o ddarparu ymyriadau yn y dyfodol, ac yn ddogfen a fydd yn 'galluogi' y BGLI i 'wneud penderfyniadau'.
- 4.29 Roedd un awdurdod lleol eisoes wedi dechrau defnyddio dulliau darparu a oedd wedi'u seilio ar yr angen i sicrhau bod 'ymyriadau' yn diwallu anghenion cymdogaethau'n well. Mae model rheoli cymdogaethau Caerdydd wedi'i seilio ar dimau rheoli cymdogaeth amlasiantaethol sy'n cynnwys partneriaid cynllunio allweddol, ac yn ceisio delio â materion lleol mewn ffordd gydweithredol.
- 4.30 Gan fod BGLlau ar wahanol gamau yn y broses o lunio a gweithredu CIUau, mae cryn nifer ohonynt yn parhau i ddatblygu ffyrdd o'u cyflawni. Gan gofio hyn, mae cyfleoedd da gan wasanaethau i drefnu ymyriadau ar sail tystiolaeth o'r hyn sy'n gweithio orau, ar gyfer pwy ac ym mha amgylchiadau.
- 4.31 Er hynny, roedd nifer o ddadansoddwyr data, yn benodol, yn cydnabod ei bod yn bwysig ymgynghori'n ehangach wrth lunio'r sylfaen dystiolaeth ar gyfer y dadansoddiad o'r ymateb. Fodd bynnag, roedd yn glir yn y cyfweiliadau fod y gallu (deallusol a chorfforol) i ymdrin yn ystyrllon â'r dystiolaeth er mwyn cyfrannu at ymarfer yn gyfyngedig iawn, ac felly bod mwy o waith yn mynd i'r dadansoddiad o'r sefyllfa ar gyfartaledd.

Llunio Dadansoddiad o'r Ymateb – Ffyrdd o wella

- 4.32 Y ffordd fwyaf amlwg o wella ansawdd y dadansoddiadau o'r ymateb yw dargyfeirio rhywfaint o'r gwaith sy'n mynd i'r dadansoddiadau o'r sefyllfa. Wrth wneud hyn, byddai'n fwyaf manteisiol canolbwyntio ar gasglu ac asesu tystiolaeth i werthuso effeithiolrwydd yr ymyriadau o ran gwireddu eu canlyniadau arfaethedig. Yn y tymor hwy, byddai hyn yn gymorth mawr i sicrhau'r canlyniadau gorau o ran effaith a gwerth am arian; yn gwella ansawdd penderfyniadau; ac yn gwneud gwasanaethau'n fwy atebol.
- 4.33 Cyhyd ag y bydd gwasanaethau cyhoeddus heb y gallu i ddefnyddio tystiolaeth i werthuso ymyriadau fel hyn ac i gynnwys prosesau gwerthuso wrth ddarparu gwasanaethau, mae perygl y bydd polisi ac ymarfer yn parhau i ddatblygu ar sail rhagdybiaethau sydd heb eu profi a thystiolaeth ddisgrifiadol wan am lwyddiant. Ar y gorau, byddai hyn yn golygu parhau ag arferion aneffeithiol neu led-fanteisiol. Ar y gwaethaf, gallai arwain at ganlyniadau niweidiol, anfwriadol a gwastraffu adnoddau prin. Roedd nifer o achosion lle y gwelwyd canlyniadau anfwriadol o'r fath.
- 4.34 Gyda golwg ar y cynlluniau Teuluoedd yn Gyntaf a Cymunedau yn Gyntaf, cafwyd gwerthusiadau da o dystiolaeth am ymyriadau o dan y cynlluniau hyn ar ffurf adroddiadau interim ar ganfyddiadau. Bydd yr adroddiadau hyn yn ddefnyddiol wrth lunio dadansoddiadau effeithiol o'r ymateb. Y tu allan i Gymru, mae'r Adran Gwaith a Phensiynau yn cyhoeddi gwerthusiadau o ymyriadau o bryd i'w gilydd. Gall y gwerthusiadau hyn daflu goleuni ar ymatebion effeithiol gan awdurdodau lleol i broblemau cymdeithasol hirsefydlog.
- 4.35 Byddai mantais fawr hefyd mewn cydgysylltu â sefydliadau academiaidd er mwyn cael sylfaen dystiolaeth gadarnach ar gyfer ymyriadau. Yn wir, mae'n dod yn fwyfwy cyffredin i Brifysgolion fod yn aelodau neu'n aelodau cyswllt o BGLlau ac yn fwyfwy parod i

deilwra gweithgareddau ymchwil i ateb cwestiynau sydd o ddiddordeb i'r sector cyhoeddus. Er bod heriau amlwg o ran y ffyrdd o ariannu a llywodraethu'r ymgysylltu â'r sector academaidd, byddai cyngor gan academwyr yn gymorth mawr wrth ddylunio polisi ac arferion, er mwyn sicrhau bod modelau gwasanaeth wedi'u seilio ar dystiolaeth gadarn, yn hytrach nag aros nes bod ymyriadau wedi'u cyflwyno cyn chwilio am dystiolaeth o'u heffeithiolrwydd.

- 4.36 Byddai cyfuno cyllidebau ac adnoddau dadansoddi yn fanteisiol iawn hefyd, yn enwedig wrth ddelio â phroblemau cymdeithasol ac economaidd hollbresennol a geir yn y cyfan neu'r rhan fwyaf o'r meysydd mewn CIUau. Er enghraifft, gallai un sefydliad neu gonsortiw m arwain ar gyfuno tystiolaeth am fentrau i ostwng cyfraddau beichiogrwydd ymysg plant yn eu harddegau neu fentrau mewn ysgolion i leihau absenoldeb, gan rannu'r gwersi â'r holl ardaloedd er mwyn eu dehongli a'u cymhwyso'n lleol. Cafwyd rhywfaint o gynnydd ar hyn drwy un o is-grwpiau Pwyllgor Cyswllt Ystadegol Cymru sy'n cynnwys dadansoddwyr sy'n ymwneud â llunio asesiadau o anghenion ar gyfer CIUau.
- 4.37 Fel y mae ein cyfweiliadau'n dangos, mae nifer o ffactorau diwylliannol hirsefydlog ac adnabyddus yn rhwystro'r defnydd o dystiolaeth mewn gwasanaethau cyhoeddus. Os na fydd prosesau'r CIU a'r AUA yn cyfrannu at leihau'r rhwystrau hyn, prin fydd y cyfle i wella ansawdd y dadansoddiadau o'r ymateb. Un o'r rhwystrau hyn yw amharodrwydd i fuddsoddi mewn swyddogaethau dadansoddi mewn cyfnod pryd y mae amddiffyn gwasanaethau'r rheng flaen yn cael ei weld yn hollbwysig.
- 4.38 Mae'n bwysig cydnabod nad oes angen i awdurdodau lleol gynnal dadansoddiadau o'r ymateb ar wahân i'w gilydd, ac nad yw'r agwedd hon ar yr asesiad anghenion strategol yn elfen ddaearyddol o reidrwydd. Byddai cydweithio drwy rwydweithio â dadansoddwyr, economegwyr, ystadegwyr ac ymchwilwyr

cymdeithasol eraill, ymysg eraill, ledled Cymru, er mwyn rhannu syniadau, yn helpu i greu dadansoddiadau effeithiol o'r ymateb sy'n cynnwys materion sy'n effeithio ar bob sir.

- 4.39 Yn wir, byddai comisiynu gwerthusiadau sy'n debygol o roi canlyniadau sy'n ddefnyddiol i fwy nag un awdurdod lleol yn ffordd effeithiol o ddefnyddio adnoddau cyfyngedig yng nghyd-destun dadansoddiad o'r ymateb.

5. Ymgysylltu â Dinasyddion

Citizen Engagement	Ymgysylltu â Dinasyddion
Participation	Cyfranogi
Consultation	Ymgynghori

- 5.1 Mae canllawiau Llywodraeth Cymru yn nodi bod dull Cymru o ddiwygio gwasanaethau cyhoeddus wedi'i seilio ar broses lle mae llais y dinesydd yn sbardun i wella gwasanaethau⁶. Dylid egluro yn y Cynllun Integredig Unigol sut y mae partneriaid yn bwriadu ymgysylltu â phobl a chymunedau, gan ddisgrifio'n glir iawn sut y bydd hyn yn helpu i wella gwasanaethau a phrofiad unigolion sy'n defnyddio'r gwasanaethau. Mae'r canllawiau'n nodi bod angen gwneud mwy i hyrwyddo a hwyluso'r gwaith o ymgysylltu â phlant a phobl ifanc a'u cymell i gymryd rhan, ac mae gwybodaeth am y ffordd o gyflawni hyn i'w chynnwys yn y strategaeth ymgysylltu.
- 5.2 Yn ogystal â hyn, pwysleisir bod ymgysylltu manwl ag unigolion, teuluoedd a staff rheng flaen yn gallu rhoi dealltwriaeth dda iawn o rai o'r problemau mwyaf cymhleth ac anodd eu datrys a ddylai gael sylw drwy'r broses gynllunio. Prin yw'r dystiolaeth ar hyn o bryd o ddefnydd helaeth o ymgysylltu o'r math hwn sy'n canolbwyntio ar y dinesydd er mwyn delio â methiant a chreu gwasanaethau o'r radd flaenaf, er bod enghreifftiau penodol o arfer rhagorol (Cydamcanu - Cydymdrechu, 2012).
- 5.3 Dylai'r Cynllun Integredig Unigol gynnwys strategaeth ymgysylltu sy'n egluro sut y bydd hyn yn cael ei gyflawni.

Beth sy'n digwydd?

⁶ Er hynny, nid yw Adroddiad Beecham (Ar Draws Ffiniau, 2006) wedi diffinio'n glir beth y mae 'llais' yn ei olygu.

- 5.4 Drwy ddefnyddio 'Model Ymgysylltu' Cyfranogaeth Cymru, roedd yn amlwg bod y rhan fwyaf o awdurdodau lleol wedi gwneud mwy na dim ond 'hysbysu' y cyhoedd am CIUau.
- 5.5 Roedd cyfweiliadau'n dangos bod ymgysylltu â defnyddwyr gwasanaethau a chymunedau wedi digwydd fel arfer mewn un o ddwy ffordd:
- Gwrando/Ymgynghori: Roedd nifer o awdurdodau wedi gofyn cwestiynau, wedi gwrandao ar bryderon ac awgrymiadau'r cyhoedd, ac wedi defnyddio adborth i ddatblygu'r CIU drafft ar ôl ei lunio. Hynny yw, ar ôl pennu'r canlyniadau a llunio'r CIU, *ymgynghorwyd* â'r cyhoedd ynghylch a oeddent yn cytuno ar ganlyniadau'r CIU.
 - Cynnwys/Partneru: Er nad oedd y cyhoedd wedi'i wahodd i gymryd rhan mewn gweithdai ym mhob achos, roedd rhai BGLlau wedi cynnwys aelodau o'r cyhoedd wrth ddewis canlyniadau'r CIU ac, i ryw raddau, wrth ddylunio'r CIU, drwy eu gwahodd i lenwi holiaduron ar-lein. Mae ymgysylltu o'r math hwn yn berthnasol i'r cysyniad o *gynnwys* sydd wedi'i hyrwyddo gan Cyfranogaeth Cymru lle mae'r cyhoedd yn cymryd rhan yn y broses benderfynu.
- 5.6 Ni ellid dweud bod unrhyw ardal wedi grymuso/dirprwyo cyfrifoldeb dros wneud penderfyniadau ynghylch y CIU (ffyrdd o ymgysylltu â dinasyddion sydd hefyd yn cael eu galw'n 'gydgyngkori').
- 5.7 Nid yw'n glir a yw cynnwys y cyhoedd o'r dechrau'n fwy neu'n llai effeithiol nag ymgynghori â hwy ar ddiwedd y broses, ar ôl pennu'r canlyniadau.
- 5.8 Roedd yr awdurdodau lleol a oedd wedi cynnwys y cyhoedd wrth ddewis canlyniadau'n dadlau bod hyn yn 'gam hanfodol' tuag at rymuso cymunedau lleol a phennu'r blaenoriaethau cywir:
- "Mae'r cyhoedd yn bartner hefyd, felly mae'n bwysig eu cynnwys i'r un graddau ag y byddem yn cynnwys unrhyw randdeiliad arall."*
- 5.9 Eglurodd rhai BGLlau ei bod yn fwy priodol datblygu fersiwn derfynol o'r CIU ar sail gwybodaeth y partneriaid cynllunio, ac

annog y cyhoedd i wneud sylwadau ar ddrafft o'r CIU yn ddiweddarach. Y farn a glywyd yn aml yn yr achosion hyn oedd bod yr ymgynghori wedi cadarnhau bod y blaenoriaethau cywir wedi'u dewis gan asiantaethau, sefydliadau a rhanddeiliaid eraill, ac felly bod 'ymgyngori' â'r cyhoedd yn ddigon.

- 5.10 Roedd lleiafrif o'r swyddogion arweiniol CIUau yn llai brwdfrydig ynghylch y syniad o gael cymorth gan y cyhoedd i bennu blaenoriaethau ar y dechrau:

"Mae'n bosibl na fydd y cyhoedd yn deall beth yw CIU hyd yn oed. Yn ystod yr ymgynghori, roedd rhai heb ddeall pam nad oedd y CIU yn sôn am broblemau lleol, fel mater y biniau. Nid ydynt yn deall mai cynllun partneriaeth yw'r CIU yn hytrach na chynllun y cyngor."

- 5.11 Ynghylch y pwynt olaf, roedd yr ymchwiler maes yn dangos bod rhywfaint o ddryswch ymysg y cyhoedd ynghylch y gwahaniaeth rhwng y cynllun corfforaethol neu gynllun y cyngor a'r CIU. Roedd hyn yn codi sawl her i awdurdodau a oedd yn ceisio ymgynghori ar y ddau fath o gynllun yr un pryd.

- 5.12 Yn olaf, yn y cyd-destun hwn, mae'n werth nodi bod BGLlau wedi ceisio ymgynghori/ymgysylltu â phlant a phobl ifanc. Credai'r rhan fwyaf o awdurdodau lleol eu bod wedi treulio amser yn siarad â phlant a phobl ifanc ledled Cymru ac roedd rhai o'r awdurdodau wedi llunio fersiwn o'r CIU a oedd yn addas i blant.

Meysydd allweddol i'w hystyried

- 5.13 Teg yw dweud bod rhywfaint o ddryswch ynghylch y cysyniad o ymgysylltu â dinasyddion. Gan amlaf, roedd ymgysylltu'n cael ei weld yn gyfystyr â phroses ymgynghori.

- 5.14 Fodd bynnag, efallai y dylid ystyried ymgysylltu â dinasyddion yn broses sy'n rhoi cyfle i ddinasyddion gymryd rhan wrth ddylunio gwasanaethau cyhoeddus a chyfranogi mewn penderfyniadau gan awdurdodau lleol. Er bod rhai ardaloedd yn fwy brwd ynghylch ymgysylltu â chymunedau lleol, prin iawn oedd y BGLlau a oedd

wedi ceisio ymgysylltu â'r cyhoedd i'w cymell i gymryd rhan yn y gwaith o ddylunio gwasanaethau cyhoeddus (mathau o ymgysylltu â dinasyddion sy'n ymwneud â grymuso/cydgynghori).

- 5.15 Yn gyffredinol, roedd y cyfweiliadau'n awgrymu bod y cyfathrebu *wyneb yn wyneb* â'r cyhoedd yn gyfyngedig.
- 5.16 Mae'n bosibl bod llai o sylw wedi'i roi i ymgysylltu â dinasyddion wrth ddatblygu CIUau am y rhesymau canlynol:
- Roedd yr amserlen yn dynn gan fod disgwyl i'r CIUau gael eu cwblhau erbyn Ebrill 2013. Nid oedd hyn wedi rhoi digon o amser i awdurdodau lleol ymgysylltu'n effeithiol â'r cyhoedd.
 - Roedd problemau amlwg o ran cymhwysedd a galluogrwydd. Nid oedd awdurdodau lleol yn glir bob amser ynghylch y ffordd orau o ymgysylltu â'r cyhoedd, neu'r gwahaniaeth rhwng ymgysylltu ac ymgynghori.
- 5.17 Mae'n ddiddorol nodi bod un aelod o BGLI yn teimlo y dylai ymgynghori â dinasyddion gynnwys camau i ofyn am farn aelodau etholedig: "Aelodau etholedig yw llais y bobl. Maent wedi'u hethol i gynrychioli'r bobl ac felly dylai'r cyhoedd ymddiried yn eu haelodau etholedig i wneud yr hyn y maent wedi cael eu hethol i'w wneud." Y gred, felly, oedd bod casglu barn cynghorwyr sir a chymuned yn ddigonol o ran ymgysylltu â dinasyddion. Gallai fod yn fuddiol cael trafodaeth ar ddilysrwydd y farn hon.
- 5.18 Gyda golwg ar wella'r ymgysylltu â dinasyddion yn yr holl awdurdodau lleol, gellid ystyried y materion canlynol:
- Efallai y bydd awdurdodau lleol yn gweld bod angen gosod nodau clir ar gyfer ymgysylltu / ymgynghori.
 - Gallai fod yn fuddiol iddynt ystyried astudiaethau academiaidd gan fod deunydd gwerthfawr ar gael ar gyfranogi, ymgynghori a grymuso.
 - Dylai awdurdodau lleol geisio gwella ansawdd a graddau'r ymgysylltu drwy gynnwys plant ac oedolion "anodd eu cyrraedd", gan eu bod yn gallu rhoi dealltwriaeth dda o rai o'r

problemau mwyaf cymhleth ac anodd eu datrys a ddylai gael sylw yn y CIU.

- Mae'r broses ymgysylltu'n cynnig cyfle i gynnal trafodaethau adeiladol ar y ffordd y mae anghenion wedi'u blaenoriaethu a pham y mae rhai ymyriadau wedi'u cyflwyno yn hytrach na rhai eraill. Yn y cyd-destun hwn, dylid gweld yr ymgysylltu â dinasyddion yn *gyfle* hefyd i awdurdodau lleol egluro i'r cyhoedd pam y mae penderfyniadau penodol wedi'u gwneud ar lefel y BGLI. Yn wir, mae'n bwysig bod pob math o ymgysylltu â dinasyddion yn gwneud mwy na chyfleu gwybodaeth yn unig.
- Drwy rannu enghreifftiau o arfer da, gallai awdurdodau lleol eraill wella eu technegau ar gyfer ymgysylltu â dinasyddion.
- Ar y nodyn hwn, yn 2012, cymeradwywyd deg o brosiectau o dan raglen Llais y Gymuned y Loteri Fawr. Bydd deg o Gynghorau Gwirfoddol Sirol ledled Cymru'n defnyddio £11.3 miliwn i helpu cymunedau i ddylanwadu ar wasanaethau, polisïau a phenderfyniadau sy'n effeithio arnynt er mwyn diwallu eu hanghenion yn well. Roedd yn ofynnol bod y BGLI yn cefnogi'r prosiectau hyn. Mae hyn yn fuddsoddiad sylweddol mewn gwaith i ymgysylltu â dinasyddion a chymunedau felly bydd yn bwysig dysgu gwersi o'r prosiectau hyn a'u cynnwys yn arferion y BGLIau, nid yn unig yn yr ardaloedd sydd wedi derbyn grantiau.

6. Partneriaethau

Partnerships	Partneriaethau
Commitment	Ymrwymiad
Leadership	Arweiniad
Population Indicators	Dangosyddion Poblogaeth

6.1 Roedd cyfweiliadau'n dangos bod cryn werth ymarferol i'r cysyniad o CIU. Yng nghyswllt gweithio mewn partneriaeth, mae'r enghreifftiau isod yn rhoi dealltwriaeth o'r gwerth ychwanegol sy'n cael ei greu drwy weithredu ar y cyd, cydweithio a chyd-ddarparu:

- Mewn un Awdurdod Lleol, roedd y manteision o gwrdd i drafod data a gasglwyd gan ddadansoddwyr data mewn partneriaethau wedi'u gwireddu'n barod yn ystod prosiect ar gyfer adfywio ardal ddifreintiedig. Roedd dadansoddwyr data'r Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol a'r Bartneriaeth Plant a Phobl Ifanc wedi arfer cwrdd yn rheolaidd i drafod ystadegau newydd er mwyn ceisio canfod unrhyw gydberthynas rhyngddynt. Teimlwyd bod hyn wedi ychwanegu gwerth at ganlyniadau'r prosiect, gan eu bod wedi cael gwell dealltwriaeth o broblemau yn y gymdogaeth.
- Mewn un Sir, a hynny cyn cyflwyno CIUau, roedd y BGLI wedi cymryd camau ar y cyd i ddelio â chynnydd yn nifer y bobl nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant. Drwy gydgyssylltu'r camau gweithredu rhwng partneriaethau, roedd y BGLI wedi llwyddo i ostwng cyfradd y bobl 16-18 oed nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant. Mae'r gyfradd is hon wedi'i chynnal ers hynny.

- Mewn Sir arall, gwelwyd bod y CIU wedi galluogi partneriaethau i feddwl a gweithio mewn ffordd drawsbynciol. “Pe byddai'r mecanweithiau cyflawni a weithredwyd o ganlyniad i'r CIU wedi bod ar waith yn gynharach, rydym yn credu na fyddem wedi wynebu nifer o'r anawsterau difrifol a gafwyd yn un o'n hysgolion.” Roedd y grwpiau gorchwyl a gorffen a oedd yn cynnwys carfan ehangach o gynrychiolwyr o nifer o bartneriaethau, yn gallu deall y cysylltiadau rhwng gwaith ei gilydd wrth edrych yn ôl – a dangoswyd y byddai dealltwriaeth gyffredin o'r problemau bryd hynny wedi gallu atal yr esgeulustod blaenorol a'r diffygion a gafwyd wedyn.

6.2 Cafwyd trafodaethau hir yn ystod yr ymchwil maes ar y goblygiadau o fabwysiadu CIUau i strwythurau a pherthnasoedd y partneriaethau. Fel y mae Pennod 4 yn dangos, roedd nifer o BGLlau wedi cynnwys cynrychiolwyr allweddol o'r partneriaethau presennol wrth bennu dangosyddion poblogaeth a chanlyniadau'r CIU. Roedd modelau ymgysylltu a chydweithio wedi helpu i ddangos sut yr oedd y partneriaid presennol yn cyflawni blaenoriaethau penodol ar y pryd. Felly, o ganlyniad i ddatblygu'r CIU a'r dangosyddion poblogaeth, y teimlad cyffredinol oedd bod partneriaethau wedi cael gwell dealltwriaeth o'u rolau a chyfrifoldebau yng nghyd-destun y set o flaenoriaethau cyffredinol.

6.3 Roedd nifer o BGLlau wedi rhesymoli partneriaethau o ganlyniad i fabwysiadu CIUau, ac roeddent hefyd yn awyddus i bwysleisio bod rhesymoli yn yr arfaeth cyn cyhoeddi canllawiau Llywodraeth Cymru. Yn wir, roedd teimlad cyffredinol bod angen ailstrwythuro, a bod y sefyllfa o ran partneriaethau, fel yr oedd ar y pryd, yn cynnig nifer o heriau i lawer o awdurdodau lleol. Roedd yr heriau hyn yn amrywio o'r dasg o fapio'r nifer mawr o bartneriaethau ail a thrydedd haen hyd at bennu atebolrwydd. Roedd cydnabyddiaeth nad oedd yn gwbl glir, cyn rhoi'r CIUau ar waith, sut yr oedd rhai partneriaethau'n cyfrannu at gyflawni amcanion, a bod y CIU wedi rhoi hwb i'r broses o ddiddymu gweithgorau a oedd heb

ychwanegu unrhyw werth sylweddol at y gwaith o gyflawni blaenoriaethau cyffredin.

6.4 Negeseuon allweddol eraill ynghylch ad-drefnu oedd:

- Bod nifer o BGLlau wedi sefydlu grwpiau thematig sy'n ymwneud â chanlyniadau'r CIU yn lle'r strwythurau partneriaeth blaenorol. Gan amlaf, roedd y Bartneriaeth Plant a Phobl Ifanc, y Bartneriaeth Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles a'r Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol wedi'u disodli gan grwpiau thematig a oedd yn ymwneud, er enghraifft, ag Iechyd, Cyfoeth a Ffyniant. Bellach roedd y grwpiau thematig hyn yn adrodd i 'Dîm Partneriaeth' cyffredinol a oedd yn gyfrifol am integreiddio camau gweithredu rhwng y grwpiau thematig.
- Bod rhai awdurdodau lleol wedi cadw eu strwythurau partneriaeth presennol ar y sail eu bod wedi "gweithio'n dda erioed".
- Ei bod yn glir bod grwpiau gorchwyl a gorffen, yn cynnwys nifer o sefydliadau o natur drawsbynciol, yn dod yn fwy cyffredin. Mae'r grwpiau hyn yn ceisio cyflawni gwaith ar ddangosyddion poblogaeth penodol sy'n cyfrannu at wireddu canlyniadau cyffredinol y CIU.
- Bod nifer llai o BGLlau wedi ad-drefnu'n sylweddol ac wedi cyflwyno mecanweithiau darparu ar sail model rheoli cymdogaeth (gweler 'Learning to Improve: A case study of the Cardiff Partnership', a gyhoeddwyd i gyd-fynd â'r adroddiad hwn).
- Bod BGLlau eraill wrthi'n trafod sut y gallai'r CIU effeithio ar strwythurau partneriaethau a'u gwaith.

6.5 Er ei fod yn cael ei ystyried yn 'her sylweddol', roedd y rhesymoli ar bartneriaethau wedi bod yn werthfawr i'r awdurdodau lleol hynny a wnaeth newidiadau o'r fath. Roedd yr ad-drefnu a thafllu beichiau diangen wedi galluogi BGLlau i ryddhau adnoddau dynol ac ariannol i'w hailgyfeirio at wireddu canlyniadau'r CIU.

- 6.6 O ran nifer y 'cyfarfodydd' a'r amser a dreulir ynddynt, roedd un BGLI wedi rhag-weld y byddai'r rhesymoli'n arbed 'miliynau' i'r awdurdod lleol o ganlyniad i adnewyddu'r strwythurau a phrosesau. Nid oedd y syniad hwn yn anghyffredin, er na roddwyd tystiolaeth o arbedion o'r fath.

Meysydd allweddol eraill i'w hystyried

- 6.7 Drwy sicrhau bod nodau'r Cynllun Integredig Unigol yn glir, gellir hyrwyddo gweithio mewn partneriaeth. Y neges allweddol yn hyn o beth yw mai nod y CIU yw gwella'r ffordd y mae darparwyr gwasanaethau cyhoeddus yn gweithio (ac yn meddwl), yn enwedig yng nghyd-destun toriadau mewn cyllidebau. Mae'r cysyniad o CIU yn ymwneud â chyplysu'r partneriaethau, dogfennau, gweithgareddau a rhaglenni effeithiol sy'n bod ar hyn o bryd er mwyn cydgysylltu'r ddarpariaeth o wasanaethau'n well a lleihau dyblygu. Nid oes rhaid dechrau â 'dalen lân'; yn hytrach dylai BGLlau weld y CIU yn 'gyfle' i fanteisio ar y strwythurau dibynadwy presennol a'u datblygu, drwy gydgysylltu camau effeithlon i ddarparu a chyflenwi gwasanaethau'n well.
- 6.8 Os yw partneriaethau'n effeithiol ac yn gwneud gwahaniaeth, mae cyfiawnhad dros eu cadw, ar yr amod bod:
- BGLlau yn gallu dangos eu bod yn addas ac yn atebol.
 - Bod y gwahaniaeth y maent yn ei wneud yn gynaliadwy. Mae rhai partneriaethau wedi sicrhau canlyniadau cadarnhaol drwy ddod at ei gilydd a threfnu adnoddau ar y cyd. Y brif her yw sicrhau bod cydweithredu llwyddiannus yn parhau. Nid yw'r CIU yn galw am resymoli partneriaethau o reidrwydd, ar yr amod eu bod yn addas i'w diben.
- 6.9 Er hynny, roedd nifer o swyddogion arweiniol CIUau ac aelodau BGLlau wedi pwysleisio bod sefydlu grwpiau thematig yn lle strwythurau partneriaeth, a'r rheini'n atebol bellach i un Tîm Partneriaeth cyffredinol, yn fodd i hybu cydweithio. Er enghraifft, drwy gyflwyno swydd y 'Rheolwr Partneriaethau', roedd yn bosibl

darganfod dyblygu ar lefel uwch. Roedd y strwythurau newydd yn gallu dod â dealltwriaeth ehangach o weithio mewn partneriaeth ar lawr gwlad ac, os oedd dyblygu wedi'i ganfod, roedd blaenoriaeth yn cael ei rhoi i gyfuno'r gwaith presennol a'i ganoli ar broblemau cyffredin. Y teimlad cyffredinol oedd bod sefydlu Tîm Partneriaeth trosfwaol yn ei gwneud yn llai tebygol i bartneriaethau weithio ar wahân i'w gilydd.

- 6.10 Roedd eraill a gyfwelwyd yn fwy amheus, ac yn awgrymu bod strwythurau partneriaeth ar eu ffurf bresennol yn llwyddo a'u bod yn debygol o barhau. Pwysleisiwyd hefyd 'na allwch atal grŵp o bobl rhag cwrdd' ac y gallai rhesymoli fod o gymorth yn y tymor byr, nes bod is-grwpiau a chyfarfodydd yn dechrau amlhau eto.

7. Adnoddau

Resources	Adnoddau
Pooling budgets	Cyfuno cyllidebau
Personal information sharing	Rhannu gwybodaeth bersonol
Data-sharing	Rhannu data

- 7.1 Rydym eisoes wedi cyfeirio at y thema ‘adnoddau’ mewn rhannau eraill o’r adroddiad. Yma rydym yn egluro beth yw’r ‘diffygion o ran adnoddau’ y credwyd eu bod yn amharu ar y gallu i ddatblygu CIUau ac AUAau yn effeithiol.

Adnoddau: Gallu Dadansoddol (ar gyfer AUAau yn benodol)

- 7.2 Roedd y gallu dadansoddol yn amrywio rhwng yr awdurdodau lleol. Gwelwyd bod yr awdurdodau lleol mwyaf yn gallu trefnu bod eu dadansoddwyr presennol mewn swyddfeydd canolog yn gweithio ar y CIU a’r AUA. Roedd awdurdodau lleol eraill wedi dod â dadansoddwyr data at ei gilydd wedi iddynt fod yn gweithio ar wahân ar brosiectau mewn timau partneriaeth datganoledig. Yn yr achosion hyn, teimlwyd bod y gallu dadansoddol yn ddigonol, yn effeithiol ac yn addas i’r dasg dan sylw.
- 7.3 Roedd awdurdodau lleol eraill wedi neilltuo un dadansoddwr data i weithio ar lunio AUA. Y bwriad oedd bod y dadansoddwr data hwn i gydgyssylltu â phartneriaid cynllunio allweddol wrth ddatblygu’r AUA. Fel y nodwyd uchod (gweler Pennod 4), mae peryglon posibl

ynglŷn ag ymddiried y gwaith o lunio dogfen drosfwaol o'r fath i un swydd. Gellir dadlau hefyd fod hyn yn mynd yn groes i amcan y CIU o gymell cydweithio i bennu canlyniadau cyffredin.

- 7.4 Pwysleisiodd awdurdod lleol arall fod y dasg o lunio CIU ac AUA yn cyfiawnhau recriwtio o'r tu allan. Fodd bynnag, nid oedd yn glir yn yr achos hwn a oedd amgyffrediad llawn o'r adnoddau mewnol a oedd ar gael i'r awdurdod lleol ar gyfer dadansoddi nac a oedd wedi rhoi ystyriaeth briodol i'r posibilrwydd o gael darpariaeth fewnol.
- 7.5 Roedd eraill wedi talu am wasanaeth arbenigol yr Uned Ddata Llywodraeth Leol. Yn yr achosion hyn, gofynnwyd i'r uned ddata lunio AUA ar gyfer yr awdurdod lleol cyfan. Ystyriaethau o ran 'amser' oedd y rheswm dros y penderfyniad hwn. Er bod awdurdodau lleol yn cydnabod bod diffygion o ran adnoddau mewnol, teimlwyd nad oedd Llywodraeth Cymru wedi rhoi digon o amser i BGLlau drefnu eu hadnoddau presennol ar gyfer y dasg o lunio CIU ac, yn benodol, ar gyfer paratoi AUA hollgynhwysol. Yn gyffredinol, barnwyd bod gwaith yr uned ddata yn ddefnyddiol, er nad oedd y syniad o gomisiynu gwaith arbenigol ganddi bob blwyddyn yn cael ei ystyried yn gynaliadwy. Roedd Uned Ddata Llywodraeth Leol wedi darparu data gwaelodlin pwysig i'r awdurdodau lleol a oedd wedi comisiynu gwaith ganddi.
- 7.6 Er bod Uned Ddata Llywodraeth Leol yn gallu helpu awdurdodau lleol i lunio dadansoddiad o'r sefyllfa, rhaid pwysleisio nad yw mor sicr y gallai ddarparu dadansoddiad o'r ymateb.

Adnoddau: Methodolegau seiliedig ar Ganlyniadau

- 7.7 Ystyriwyd bod canllawiau Llywodraeth Cymru yn cymell awdurdodau lleol i ddefnyddio methodolegau seiliedig ar ganlyniadau i lunio a chyflawni CIUau. Roedd hyn yn destun pryder i rai, oherwydd mewn rhai achosion teimlwyd nad oedd adnoddau digonol gan awdurdodau lleol i ddatblygu CIU drwy ddefnyddio dulliau o'r fath (sef egwyddorion ASG gan amlaf). Weithiau, roedd

yr adnoddau ar gyfer ASG yn anwastad ac yn 'wasgaredig'; roedd rhai partneriaid yn defnyddio'r dull hwn, ond nid pob un.

7.8 Y teimlad cyffredinol oedd, gan fod Llywodraeth Cymru wedi pennu bod methodolegau seiliedig ar ganlyniadau i'w defnyddio i ddatblygu CIUau, y dylid darparu mwy o gymorth i sicrhau bod adnoddau angenrheidiol gan awdurdodau lleol ar gyfer ASG.

7.9 Roedd cyfweiliadau eraill yn dangos bod nifer o awdurdodau lleol wedi cynnal llawer o hyfforddiant ynghylch methodolegau seiliedig ar ganlyniadau. Yn y siroedd hyn, roedd cyflwyno CIUau wedi arwain at asesu'r gallu a'r ddealltwriaeth o ran ASG yn yr holl dimau partneriaeth ac, os gwelwyd bod diffygion, roedd swyddogion arweiniol CIUau wedi ceisio rhannu a throsglwyddo'r wybodaeth bresennol ar draws eu hawdurdodau drwy gynnal rhaglenni hyfforddi.

7.10 Nid oedd yn glir, fodd bynnag, a oedd sesiynau hyfforddi ar fethodolegau seiliedig ar ganlyniadau'n cael eu gweld yn 'ateb sydyn' a dim arall:

"Mae sesiynau hyfforddi wedi'u cynnal, ond amser a ddengys a yw egwyddorion ASG wedi'u deall a'u rhoi ar waith."

Hynny yw, er bod cyrsiau hyfforddi wedi'u cynnal a chyfranogwyr allweddol wedi'u dilyn, nid yw'n glir a oedd mabwysiadu egwyddorion ASG wedi cymell mwy o ddefnydd o dystiolaeth a gwelliant o ran gwerthuso. Bydd angen mwy o ymchwil i ganfod a yw'r gallu ynghylch methodolegau seiliedig ar ganlyniadau wedi gwella.

Rhannu gwybodaeth

7.11 Roedd swyddogion arweiniol CIUau, yn ogystal â dadansoddwyr data, yn cydnabod ei bod yn bwysig rhannu data rhwng darparwyr gwasanaethau. Drwy rannu gwybodaeth â phartneriaid, ar sail canlyniadau cyffredin sydd wedi'u datblygu mewn CIU, gellir tynnu sylw at ddyblygu a darparu gwasanaethau'n well, yn enwedig yng nghyswllt defnyddwyr gwasanaethau sydd gyda'r mwyaf agored i

niwed mewn cymdeithas. Mewn geiriau eraill, bydd awdurdodau lleol a'u partneriaid yn gallu sicrhau manteision synergaid drwy rannu data (personol).

- 7.12 Pwysleisiwyd gan lawer, fodd bynnag, fod rhannu data, ac yn enwedig rhannu gwybodaeth bersonol rhwng is-grwpiau mewn partneriaethau, yn fater cymhleth oherwydd deddfwriaeth ynghylch diogelu data a chyfrinachedd. Oherwydd hyn, roedd rhai partneriaid yn amharod o hyd i rannu data ar draws ffiniau partneriaethau. Roedd cydnabyddiaeth y gallai amharodrwydd o'r fath fod yn rhwystr i gydweithio yn y dyfodol – ac mewn rhai achosion roedd yn arafu'r broses o ddatblygu AUA.
- 7.13 Os byddant yn methu â chytuno ar brotocolau ar gyfer rhannu data personol, mae perygl y bydd awdurdodau lleol a'u partneriaid yn gweithio ar wahân i'w gilydd neu y gallent golli'r manteision synergaid a geir drwy ddarparu gwasanaethau'n well.
- 7.14 Dywedwyd bod 'iechyd' yn faes allweddol lle'r oedd amharodrwydd i rannu data (personol).
- 7.15 Er hynny, eglurodd aelodau BGLlau fod gwybodaeth bersonol yn cael eu rhannu'n aml ar lefel weithredol, yn enwedig yng nghyswllt gwaith ar achosion cymhleth. Mae hyn yn bwysig wrth weithio gyda'r bobl sy'n fwyaf agored i niwed mewn cymdeithas er mwyn darganfod cysylltiadau allweddol yng nghyd-destun atal camdriniaeth.

Cyfuno Cyllidebau

- 7.16 Gan ddilyn y canllawiau ar CIUau, roedd rhai awdurdodau lleol wedi dechrau trafod cyfuno cyllidebau 'yn fwy diwyd'.
- 7.17 Mewn rhai achosion, roedd symiau o gyllid a ddyrannwyd i bartneriaethau unigol wedi cael eu cyfuno mewn un gronfa gomisiynu. Credwyd ei bod yn fuddiol treialu'r dull o rannu cyfrifoldeb ariannol mewn mentrau llai yn gyntaf, fel bod awdurdodau lleol yn gallu rhoi prawf ar gyfuno cyllidebau cyn ystyried gwneud hynny ar raddfa fwy.

- 7.18 Roedd cydnabyddiaeth y byddai camau ar raddfa fach yn gallu bod yn hwb i gyfuno cyllidebau ar raddfa fwy yn y dyfodol.
- 7.19 Yn aml, roedd cyfuno cyllidebau'n cael ei weld yn rhywbeth delfrydol, ac er bod y dull hwn o weithredu'n cael ei ystyried yn rhesymegol ac yn briodol yng nghyd-destun gwireddu set o ganlyniadau cyffredin, credwyd ei fod yn cynnig her sylweddol. Roedd aelodau BGLlau yn cydnabod mai'r canfyddiad ar lefel y bartneriaeth oedd y byddai ildio cyllid i gronfa gomisiynu ganolog yn gyfystyr ag ildio cyfrifoldeb: *“Mae hyn yn gwneud i bobl deimlo'n anesmwyth... ond mae angen newid yr agwedd hon.”*
- 7.20 Er mwyn darparu ar y cyd, bydd angen i rai sefydliadau dderbyn y bydd y manteision a geir o rai buddsoddiadau'n rhai anuniongyrchol. Er hynny, gwelwyd bod cronfa gomisiynu ganolog yn ffordd o sicrhau cynllunio sy'n canolbwyntio ar y dinesydd, a bod sicrhau gwell canlyniadau i ddefnyddwyr gwasanaethau'n bwysicach na bodloni dymuniadau partneriaethau ynghylch dyrannu cyllid.
- 7.21 Yn gyffredinol, fodd bynnag, prin yw'r dystiolaeth o ddefnydd helaeth o drefniadau i gyfuno cyllidebau.

8. Monitro Cynnydd

Monitoring Progress	Monitro Cynnydd
Impact Evaluation	Gwerthuso Effeithiau
Communicating progress	Rhoi gwybod am gynnydd
Capturing whether results achieved	Canfod a yw canlyniadau wedi'u gwireddu

Monitro Cynnydd: Dangosyddion Poblogaeth

- 8.1 Roedd y rhan fwyaf o BGLlau yn bwriadu defnyddio cardiau adrodd ASG i fonitro cynnydd. Roedd y cardiau adrodd hyn wedi'u datblygu yn ystod y broses o lunio'r CIU.
- 8.2 Nododd swyddogion arweiniol CIUau y byddai'r cardiau hyn yn cael eu diweddarau o bryd i'w gilydd a'u monitro'n rheolaidd gan Reolwyr Timau Cymorth Partneriaeth. Byddai hyn yn creu ymwybyddiaeth gyffredinol o'r cynnydd ar yr *holl* ddangosyddion poblogaeth.
- 8.3 Roedd nifer o swyddogion arweiniol CIUau wedi nodi y byddai cyfarfodydd BGLlau yn cael eu trefnu ar sail themâu'r blaenoriaethau a'r CIU. Yn ystod y cyfarfodydd hyn, byddai cardiau adrodd ASG yn cael eu defnyddio i ddangos sut yr oedd y Sir yn gwneud gwahaniaeth yng nghyswllt y dangosyddion poblogaeth a fyddai wedi'u nodi fel arfer ar y cardiau adrodd eu hunain.
- 8.4 Gwelwyd bod cardiau adrodd ASG yn gallu hyrwyddo tryloywder a gwella cyfathrebu:
“Maent yn gallu dangos yn glir i bartneriaid sut y mae'r BGLI yn llwyddo ar ddangosyddion penodol, y meysydd y mae angen eu gwella, ac a oes canlyniadau y cymerir eu bod yn cael eu gwireddu

fel 'mater o drefn' ac sydd felly i'w disodli gan faterion eraill, mwy pwysig."

Er enghraifft, os oedd yn amlwg bod yr awdurdod lleol yn llwyddo i ostwng cyfradd y bobl nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant, bydd yn bosibl nodi'r duedd hon ac ailddyrranu adnoddau at y blaenoriaethau hynny nad ydynt yn dangos gwelliant, a fydd hefyd i'w gweld ar y cardiau adrodd ASG. Un fantais bwysig yw y dylai bellach fod yn haws gweld lle y mae penderfyniadau wedi'u gwneud i ailddyrranu adnoddau ar lefel y BGLI.

- 8.5 Yn wir, y gobaith oedd y byddai'r dull hwn o fonitro'n arwain at fabwysiadu fformat cyffredin ar gyfer rhoi gwybod am berfformiad ar flaenoriaethau. Byddai cardiau adrodd o gymorth hefyd i sicrhau bod y rheini sy'n ceisio gwireddu canlyniadau cyffredin yn defnyddio'r un termau.
- 8.6 Roedd nifer llai o awdurdodau lleol yn bwriadu rhoi'r cyfrifoldeb dros lwyddo ar ddangosyddion poblogaeth i 'Hyrwyddwyr CIU'. Tasg yr Hyrwyddwyr hyn fyddai (a) ysgogi gweithredu ar y cyd i ddatrys problemau lleol perthnasol, gan gynnwys yr holl bartneriaid priodol sy'n cyfrannu at wireddu canlyniadau penodol a (b) monitro'r cynnydd ar y dangosyddion poblogaeth a aseiniwyd iddynt yn rheolaidd.
- 8.7 Rydym wedi trafod problemau sy'n ymwneud â'r gallu sydd ar gael i ddefnyddio dulliau ASG ym Mhennod 6. Os oes bwriad i ddefnyddio dulliau ASG i fonitro cynnydd, bydd yn bwysig bod BGLlau yn cydnabod ac yn asesu galluoedd o ran ASG, nid yn unig ar gyfer llunio AUA neu CIU, ond ar gyfer monitro a gwerthuso dangosyddion poblogaeth a blaenoriaethau cyffredinol y CIU.

Monitro Cynnydd: Gwerthuso Effeithiau

- 8.8 Er mwyn monitro cynnydd, bydd angen diweddarau'r dadansoddiadau o'r sefyllfa a'r ymateb yn rheolaidd, yn ogystal â chynnal rhyw fath o werthuso (gwerthusiad o'r broses i ddangos sut y mae'n gweithredu a sut y mae'n cyfrannu at wella canlyniadau fydd yr elfen hanfodol).
- 8.9 Er mwyn gwerthuso'r effeithiau'n fwy trwyadl, byddai angen asesu'r canlyniadau a gafwyd o dan holl amcanion y cynllun ac edrych yn fanwl ar effeithiolrwydd yr ymyriadau. Rydym yn derbyn nad yw'n bosibl cyflawni hyn o fewn y cyfyngiadau presennol ar adnoddau.
- 8.10 Os gwelir bod ymyriad yn effeithiol, dylid cymryd camau i rannu'r wybodaeth amdano â siroedd eraill, er mwyn gallu defnyddio adnoddau'n well mewn ardaloedd eraill. Fodd bynnag, os nad yw ymyriad yn cwrdd ag anghenion y boblogaeth, gellir cael gwybodaeth werthfawr ar gyfer darparu gwasanaethau yn y dyfodol drwy ganfod y rhesymau am hynny.
- 8.11 Os bydd problemau'n codi o ran y gallu i fonitro ymyriadau, dylid nodi'r rhain ac ystyried ffyrdd o'u datrys.
- 8.12 Roedd yn glir, yn gyffredinol, y byddai mwy o ymdrech bellach, o ganlyniad i gyflwyno Cynlluniau Integredig Unigol, i fonitro cynnydd gan holl bartneriaid yr awdurdod lleol ac yng nghyswllt ffyrdd perthnasol o fesur canlyniadau. Byddai hyn yn cael ei gyflawni mewn ffordd fwy tryloyw a rhesymegol. Mae'n debygol y ceir gwell atebolrwydd a chraffu o ganlyniad i gyflwyno CIUau.
- 8.13 Ar hyn o bryd, dim ond mewn rhai ardaloedd y ceir craffu gan un o Bwyllgorau Trosolwg a Chraffu llywodraeth leol ar waith y BGLI. Mae darpariaethau ym Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 sy'n ei gwneud yn ofynnol bod Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu llywodraeth leol yn craffu ar waith y darparwyr gwasanaethau cyhoeddus yn yr ardal. Yn ymarferol, mae hyn yn debygol o olygu gwaith y BGLlau a'r gwaith ar gyflawni CIUau. Bydd ymgynghoriad ar y Gorchymyn Personau Dynodedig i weithredu'r darpariaethau hyn yn hydref 2013 a byddant yn cychwyn yn fuan wedyn. Bydd

hyn yn gwneud BGLlau yn fwy atebol drwy brosesau democrataidd lleol.

9. Casgliadau ac Argymhellion

- 9.1 Cynhaliwyd Gwerthusiad Interim o'r dulliau yr oedd awdurdodau lleol wedi'u defnyddio i lunio CIUau gan Ymchwilwyr Cymdeithasol Llywodraeth Cymru ar y cyd â myfyriwr PhD o Brifysgol DeMontfort, a oedd wedi'i gyflogi'n intern i'r diben hwn.
- 9.2 Prif nod yr ymchwil oedd cael dealltwriaeth o'r gwahanol ddehongliadau gan awdurdodau lleol o ganllawiau Llywodraeth Cymru ar lunio CIUau. Wrth wneud hynny, y bwriad oedd cofnodi ffyrdd o weithio a oedd yn drosglwyddadwy ac yn addawol a nodi meysydd i'w gwella ar ôl y cylch cynllunio cyntaf. Er mwyn cyflawni hyn, cynhaliwyd cyfweiliadau wyneb yn wyneb â swyddogion arweiniol CIUau a dadansoddwyr data ym mhob un o'r 22 o awdurdodau lleol yng Nghymru.
- 9.3 Mae prif ganfyddiadau'r Gwerthusiad Interim yn ymwneud yn bennaf ag anghysondeb yn y ffyrdd y mae awdurdodau lleol wedi mynd ati i ddatblygu CIUau yng nghyd-destun: y dadansoddiad o'r sefyllfa; y dadansoddiad o'r ymateb; ymgysylltu â dinasyddion; ad-drefnu partneriaethau; a monitro cynnydd. Yn ogystal â hyn, cafwyd bod cryn amrywiaeth o ran y gallu i lunio cynlluniau ar sail tystiolaeth a dadansoddiadau rhwng yr awdurdodau lleol, a hefyd o ran y ddealltwriaeth o fethodolegau sy'n seiliedig ar ganlyniadau.

Y Cynllun a'i Fethodoleg

- 9.4 Gan fod Llywodraeth Cymru yn cymryd camau ar hyn o bryd i annog y sector cyhoeddus ehangach yng Nghymru i ddefnyddio methodolegau seiliedig ar ganlyniadau, gallai fod yn destun pryder bod y ddealltwriaeth ohonynt ymhlith BGLlau yng Nghymru yn anghyson, yn ôl y dystiolaeth a gawsom. Mae'r ffaith bod dulliau ASG, yn benodol, wedi'u defnyddio i ddatblygu canlyniadau cyffredin y CIUau yn dwysáu'r pryder hwn. Mae'r ymchwil yn dangos bod dryswch ynghylch ystyr termau ASG mewn rhai achosion.

- 9.5 O ystyried yr uchod, gallai Llywodraeth Cymru ystyried gwella (neu hyrwyddo) dealltwriaeth o fethodolegau seiliedig ar ganlyniadau mewn awdurdodau lleol. Yn yr un modd, ar lefel yr awdurdod lleol, dylai swyddogion arweiniol CIUau gymryd camau i drosglwyddo gwybodaeth ynghylch dulliau ASG os yw'r rhain yn cael eu defnyddio i bennu canlyniadau'r CIU.

Y Sylfaen Dystiolaeth a'r Ffordd o'i Dadansoddi

- 9.6 ***Y Dadansoddiad o'r Sefyllfa:*** Gyda golwg ar yr AUAau a luniwyd ochr yn ochr â'r CIUau, cafwyd bod llawer o awdurdodau lleol yn datblygu dadansoddiad cynhwysfawr o'r sefyllfa i ategu CIUau, ond bod gan nifer ohonynt le i wella o ran dadansoddi ystadegau a defnyddio tystiolaeth ansoddol. Mae angen defnyddio tystiolaeth ansoddol i wrthbwysu a rhoi cyd-destun i'r dystiolaeth feintiol, y ceir digonedd ohoni'n aml ar ffurf graffiau a thablau. Wedi dweud hyn, cafwyd cydnabyddiaeth o ddiffygion mewn gallu dadansoddol mewn nifer o awdurdodau lleol ac yn sicr yng nghyd-destun llunio'r CIUau eu hunain.
- 9.7 Gan gofio hyn, mae'r adolygiad yn nodi y gallai Llywodraeth Cymru ystyried hwyluso gwelliannau mewn gallu dadansoddol mewn awdurdodau lleol, er bod hyn yn digwydd eisoes drwy waith Pwyllgor Cyswllt Ystadegol Cymru. Dylai Llywodraeth Cymru hefyd ystyried cyflwyno mecanweithiau adborth ffurfiol ar AUAau yn ogystal â datblygu set unigol o ddangosyddion poblogaeth i hyrwyddo safonau ac arferion cyson ar gyfer AUAau.
- 9.8 Ar lefel yr awdurdod lleol, dylai BGLlau geisio gwella ansawdd a chadernid cyffredinol y dadansoddiad o'r sefyllfa drwy ddulliau sydd wedi'u hawgrymu ym Mhennod 4.
- 9.9 ***Y Dadansoddiad o'r Ymateb:*** Ar fater sy'n gysylltiedig â'r sylw diwethaf, teg yw dweud nad oedd yn glir bob amser pa ymchwil a oedd wedi'i gwneud ynghylch gwireddu neu ddylanwadu ar ganlyniadau arfaethedig y CIU. Er bod rhai awdurdodau lleol wedi cynnig enghreifftiau trosglwyddadwy o ffyrdd effeithiol o lunio

dadansoddiad o'r sefyllfa, nid oedd yr AUA yn cael ei weld ym mhob achos yn gyfle i ddisgrifio 'ymyriadau', er mwyn tynnu sylw Byrddau Gwasanaethau Lleol at y mathau o ymyriadau sy'n gweithio orau i ddelio â phroblemau cymdeithasol penodol yn ôl y dystiolaeth a ddadansoddiwyd.

- 9.10 Rydym wedi pwysleisio eisoes mai'r ffordd fwyaf amlwg o wella ansawdd y dadansoddiadau o'r ymateb yw ailgyfeirio rhywfaint o'r ymdrech sy'n mynd i'r dadansoddiad o'r sefyllfa. Wrth wneud hyn, byddai'n fwyaf manteisiol canolbwyntio ar gasglu ac arfarnu tystiolaeth i werthuso ymyriadau o ran eu heffeithiolrwydd wrth wireddu'r canlyniadau arfaethedig. Yn y tymor hwy, byddai hyn yn gymorth mawr sicrhau'r effaith a'r gwerth am arian mwyaf posibl; yn gwella ansawdd penderfyniadau; ac yn gwneud gwasanaethau'n fwy atebol. Wedi dweud hyn, roedd y cyfweiliadau'n dangos yn glir fod y gallu (deallusol a chorfforol) i ymdrin yn ystyrlon â thystiolaeth er mwyn datblygu ymarfer yn gyfyngedig, gan fod mwy o waith yn mynd i'r dadansoddiad o'r sefyllfa ar gyfartaledd. Unwaith eto, dylid hyrwyddo trafodaethau er mwyn gwella'r sefyllfa hon ar lefel yr awdurdod lleol a rhwng awdurdodau lleol a Llywodraeth Cymru. Un awgrym ar gyfer symud ymlaen ar hyn yw cydgysylltu â sefydliadau academiaidd i gryfhau'r sylfaen dystiolaeth ar gyfer ymyriadau, a pheidio ag ystyried y dadansoddiad o'r ymateb yn elfen ddaearyddol yn yr asesiad anghenion strategol i gymaint o raddau.

Ymgysylltu â Dinasyddion

- 9.11 Roedd awdurdodau lleol yn ymgysylltu â dinasyddion mewn ffyrdd amrywiol wrth ddatblygu CIUau, ac roedd y gwahaniaethau pennaf yn ymwneud â chyfranogi ac ymgynghori. Prin oedd y BGLlau a ddywedodd eu bod yn defnyddio ffyrdd cydgyngorol o ymgysylltu â dinasyddion wrth ddylunio a gwella gwasanaethau cyhoeddus, ac roedd dryswch yn aml ynghylch beth yw union ystyr ymgysylltu â dinasyddion. Gallai Llywodraeth Cymru ystyried cymryd camau ar

hyn drwy ddarparu canllawiau cliriach ar ei disgwyliadau o ran ymgysylltu â dinasyddion a datblygu a chyflawni CIUau. Wedi dweud hyn, rydym yn nodi bod deunydd gwerthfawr ar gael ar y cysyniad o ymgysylltu â dinasyddion y dylai'r awdurdodau lleol ei ystyried os bydd dryswch yn codi.

- 9.12 Byddai hefyd yn bosibl cynnwys trafodaethau â chynghorwyr tref a chymuned wrth ymgysylltu â dinasyddion. Mae lle i gredu y bydd unigolion yn y grŵp hwn yn gallu taflu goleuni ar rai o'r materion allweddol sy'n berthnasol i ddinasyddion 'ar lawr gwlad'.

Partneriaethau

- 9.13 Roedd nifer o swyddogion arweiniol CIUau yn awyddus i bwysleisio bod 'rhesymoli' wedi'i ystyried eisoes cyn cyhoeddi canllawiau Llywodraeth Cymru. Er hynny, roedd yn ymddangos bod CIUau wedi bod yn sbardun i ailystyried strwythurau partneriaeth, a nododd nifer o BGLlau fod hierarchaethau trefniadol wedi'u diwygio o ganlyniad i'r ymdrech i weithio mewn ffordd integredig (yng nghyd-destun 'Cydamcanu – Cydymdrechu'). Rydym wedi trafod yr hierarchaethau hyn yn fwy manwl ym Mhennod 6.
- 9.14 Cafwyd tystiolaeth gan nifer o swyddogion arweiniol CIUau fod manteision sylweddol i'w cael drwy resymoli a hybu cydweithio er mwyn gwireddu canlyniadau cyffredin a gwella amgylchiadau pobl leol. Yn wir, roedd yn amlwg bod cytundeb ar yr angen i ailwerthuso'r nifer mawr o bartneriaethau er mwyn darganfod a gwrthweithio dyblygu. Un o'r manteision mawr o resymoli a drafodwyd oedd y gallu i sicrhau mwy o atebolrwydd ar lefel y bartneriaeth.
- 9.15 Nid oedd pob un o'r awdurdodau lleol yn bwriadu ad-drefnu partneriaethau neu rannu partneriaid i grwpiau thematig. Mewn rhai rhannau o Gymru, teimlwyd bod y strwythurau partneriaeth presennol yn effeithiol ac yn 'gweithio'n dda'. Ac eto, hyd yn oed yn yr achosion hyn, roedd teimlad bod angen lleihau nifer y partneriaethau ail a thrydedd haen.

Adnoddau

- 9.16 Gwelwyd bod gallu dadansoddol yn amrywio rhwng awdurdodau lleol. Roedd hyn yn wir hefyd yn achos methodolegau seiliedig ar ganlyniadau, fel y nodwyd uchod. Er bod rhai awdurdodau lleol wedi cynnal sesiynau i drosglwyddo gwybodaeth am dulliau ASG rhwng partneriaethau, mynegwyd pryderon gan nifer o swyddogion arweiniol CIUau a dadansoddwyr data ynghylch y gallu mewnol i ddefnyddio dulliau ASG ac effeithiolrwydd y rhaglenni hyfforddi ASG ar draws yr awdurdod. Mae hwn yn gasgliad allweddol a allai alw am ymyrraeth gan Lywodraeth Cymru yn y dyfodol, drwy adnabod diffyg o ran gallu a chymryd camau i ddelio ag ef.

Monitro Cynnydd

- 9.17 Yn olaf, gwelwyd bod y rhan fwyaf o BGLlau yn bwriadu cyflwyno mecanweithiau i fonitro, cofnodi ac adrodd ar gynnydd i BGLlau, y cyhoedd a Llywodraeth Cymru – yn bennaf drwy ddefnyddio cardiau adrodd ASG. Mae hyn yn galonogol. Fodd bynnag, mae'r dryswch a nodwyd yn yr adolygiad ynghylch ystyr termau ASG yn debygol o effeithio ar ansawdd y broses monitro.
- 9.18 Mae'r adolygiad interim yn nodi hefyd fod angen diweddarau'r dadansoddiadau o'r sefyllfa a'r ymateb yn rheolaidd wrth fonitro cynnydd, yn ogystal â chynnwys rhyw fath o werthuso (gwerthusiad o'r broses i ddangos sut y mae'n gweithredu a sut y mae'n cyfrannu at wella canlyniadau fydd yr elfen hanfodol). Er mwyn gwerthuso'r effeithiau'n fwy trwyadl, byddai angen asesu'r canlyniadau a gafwyd o dan holl amcanion y cynllun ac edrych yn fanwl ar effeithiolrwydd y ymyriadau. Rydym yn derbyn nad yw'n bosibl cyflawni hyn o fewn y cyfyngiadau presennol ar adnoddau. Yn wir, mae'n debygol y bydd angen ymchwil yn y dyfodol i ansawdd y gwaith o fonitro cynnydd yn yr holl awdurdodau lleol.

Sylwadau Terfynol

9.19 I gloi, gwelwyd bod y dulliau y mae BGLlau yn eu defnyddio i ddatblygu CIUau a'r AUAau ar eu cyfer yn amrywio ledled Cymru. Mae ein hadolygiad interim yn tynnu sylw at nifer o gyfyngiadau 'ar lawr gwlad' sy'n debygol o effeithio ar waith gan y BGLlau ar ddatblygu CIUau, yn bennaf yng nghyswllt gallu dadansoddol ac adnoddau sy'n ymwneud â methodolegau seiliedig ar ganlyniadau. Yn y cyd-destun hwn, rydym yn disgrifio ac yn awgrymu nifer o ffyrdd o weithredu y gallai awdurdodau lleol eu hystyried yn fewnol. Rydym hefyd yn tynnu sylw at nifer o faterion y gallai Llywodraeth Cymru weithredu arnynt yn y dyfodol.

Cyfeiriadau

Beecham J. (2006) *Ar Draws Ffiniau: Gwasanaethau Lleol sy'n Canolbwyntio ar y Dinesydd*

Coleman S. a Gotze J. (2001) *Bowling Together: Online Public Engagement in Policy Deliberation*, Hansard Society a BT.

Yr Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol (2009) *An Analytical Framework for Community Empowerment Evaluations*, Yr Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol, Llundain.

Friedman M. (2005) *Trying Hard is Not Good Enough: How to Produce Measurable Improvements for Customers and Communities*. Trafford Publishing.

Hatton M.J. a Schroeder K. (2007), *Results-Based Management: Friend or Foe? Development in Practice*, 17:3, 426-432.

Llywodraeth Cymru (2006) *Creu'r Cysylltiadau – Cyflawni Ar Draws Ffiniau: Gweddnewid Gwasanaethau Cyhoeddus yng Nghymru*.

Llywodraeth Cymru (2008) *Adroddiad Cynllun Partneriaeth Llywodraeth Leol*

Llywodraeth Cymru (2011) *Adroddiad Cynllun Partneriaeth Llywodraeth Leol*

Llywodraeth Cymru (2012) *Cymru Gynaliadwy – Dewis Gwell ar gyfer Dyfodol Gwell, Papur Gwyn ar Ddatblygu Cynaliadwy, a Phecyn Adnoddau*

Llywodraeth Cymru (2012) *Cydamcanu – Cydymdrechu*.

ATODIAD 1

Canllaw Cyf-weld: Tîm Cymorth y BGLI / Swyddog Arweiniol y CIU

1. Cwestiynau cyffredinol

- Beth oedd eich ymateb cyffredinol chi (ac ymateb pobl eraill) i gysyniad y CIU?
- A oeddech yn teimlo ei fod yn gam angenrheidiol?
- A oedd angen i chi berswadio pobl i dderbyn cysyniad y CIU?
- A oedd y CIU yn cael ei weld yn gyfle i ailddiffinio'r blaenoriaethau ar gyfer eich ardal?

2. Cynllunio'r CIU

- Pa ystyriaethau a oedd wedi'u trafod ynghylch sut i lunio'r CIU?
- Pwy oedd yn arwain yn y trafodaethau hyn? Pwy arall a oedd yn gysylltiedig?
- A ydych yn meddwl bod y bobl 'iawn' wedi'u cynnwys?
- A oedd y drafodaeth yn canolbwyntio ar ystyriaethau ymarferol neu rai strategol, neu'r ddau?
- A oedd yn hawdd dod i benderfyniadau neu a oedd anghytuno?
 - Sut yr oedd yr anghytuno'n cael ei drafod?
- Pa mor ddefnyddiol oedd canllawiau Llywodraeth Cymru ar gyfer y trafodaethau cynnar hyn?
 - A ydych yn teimlo bod Llywodraeth Cymru wedi rhoi digon o arweiniad?
- Pa mor bwysig oedd y cam cyntaf hwn?
- Beth fydddech yn ei wneud yn wahanol y flwyddyn nesaf?

3. Llunio'r CIU

- Beth oedd y dull cyffredinol o lunio'r CIU? (Rhowch fanylion)
- Pwy oedd yn ei arwain?
- A ydych yn meddwl bod y bobl iawn wedi'u cynnwys?
- I ba raddau yr oeddech yn gweithio ar y cyd wrth lunio'r CIU (a phwy oedd y bobl eraill)?
- Pa ran yr oedd yr asesiad o anghenion yn ei chwarae wrth lunio'r CIU?

- A oedd eich cynllun yn cael ei lunio'n ganolog, neu a ofynnwyd am gyfraniadau gan bartneriaethau drwy brosesau ymgysylltu?
 - Sut yr oedd y partneriaid 'allweddol' yn cael eu pennu?
 - Sut yr oeddech yn ymwneud â'r partneriaid hyn wrth lunio'r cynllun? (Yn unigol neu ar y cyd?)
 - Sut yr oedd y partneriaid yn effeithio ar gyfeiriad cyffredinol y CIU?
 - Beth wnaethoch ei ddysgu o'r prosesau ymgysylltu?
 - Sut yr oeddech yn delio â'r mater o gynnwys y Trydydd Sector?
- Pa fath o strwythur llywodraethu a oedd ar waith ar gyfer y CIU?
 - I bwy yr oeddech yn adrodd a sut yr oeddech yn mynegi pryderon?
 - Sut yr oedd y BGLI ei hun yn cymryd rhan? A oedd yn cynnig her?
 - A ydych yn credu bod y strwythur llywodraethu'n gymesur a phriodol?
- Sut yr oedd pobl eraill yn ymateb i'ch dulliau cynllunio? A oedd unrhyw un yn gwrthwynebu?
- Wrth lunio/drafftio'r cynllun, pwy oedd y gynulleidfa darged? (Llywodraeth Cymru / Y BGLI / Partneriaid / Chi / Defnyddwyr Gwasanaethau)
- Beth oedd rhai o'r prif rwystrau yr oeddech yn eu hwynebu wrth lunio'r CIU?
 - Sut yr oeddech yn delio â'r rhwystrau hyn?
- Beth fydddech yn ei wneud yn wahanol y flwyddyn nesaf?

Gellid cael gwybodaeth am y canlynol drwy ofyn 'A allwch ddweud gair am...'

- Systemau sydd ar waith i rannu data.
- Profiadau o Atebolrwydd Seiliedig ar Ganlyniadau (ASG).
- Defnyddio tystiolaeth yn y CIU i bennu gwaelodlinau a blaenoriaethau/canlyniadau.
- Gwrthdaro rhwng partneriaid neu flaenoriaethau.
- Problemau o ran yr amserlen wrth lunio'r CIU.

4. Strwythurau Partneriaeth

- A yw strwythur neu aelodaeth y BGLI wedi newid ers llunio'r CIU?
- Sut y mae'r CIU wedi effeithio ar safbwynt a chyfansoddiad y partneriaethau lleol?
 - A yw'r perthnasoedd rhwng gwahanol bartneriaethau wedi newid?

- Beth yw'r cyd-destun / cyfiawnhad ar gyfer newidiadau mewn partneriaethau lleol?
- Ar ba bartneriaethau lleol y cafwyd yr effaith fwyaf?
- Beth oedd yr ymateb cyffredinol?
- A yw nifer y partneriaethau lleol wedi gostwng?
- Pa newid sydd wedi bod yn effeithiolrwydd / ymrwymiad y gweithio mewn partneriaeth?
- Pa heriau sydd wedi bod / a fydd yn gysylltiedig â newidiadau mewn partneriaethau lleol?
- Sut y mae'r BGLI wedi delio â materion sy'n ymwneud â newidiadau mewn partneriaethau?
- I ba raddau y mae'r BGLI yn dal partneriaethau'n atebol a sut y mae hyn wedi newid?
- A ydych yn rhag-weld mwy o newidiadau mewn partneriaethau lleol o ganlyniad i'r CIU?

5. Ffynonellau a'r Dystiolaeth a Ddefnyddiwyd (Dadansoddwyr Data)

- A ydych yn teimlo eich bod wedi defnyddio amrywiaeth eang o ffynonellau ar gyfer yr asesiad o anghenion? *Meintiol / Ansoddol / Adolygiadau o Ddeunydd / Adroddiadau Gwerthuso / Llais y Dinesydd / Ymgynghori?*
- A yw 'tystiolaeth' wedi'i defnyddio ar bob lefel a phob amser?
- Sut yr oeddech yn delio â'r mater o achosiaeth?
- Sut yr oeddech yn "mynd y tu ôl i'r data"? (Byddwch yn barod i egluro hyn)
- Sut y mae'r gwaelodlinau data wedi cael eu pennu?
- I ba raddau yr ydych wedi ystyried cyfyngiadau'r dystiolaeth?
- I ba raddau y mae trafodaethau wedi canolbwyntio ar ymyriadau?
- Sut y mae'r mesurau perfformiad wedi'u pennu a'u defnyddio wedyn?

6. Myfyrio Beirniadol

Meddyliwch am y broses gyffredinol o lunio'r CIU...

- Pa agweddau a oedd yn gweithio'n dda yn eich sefydliad?
- Beth fydddech yn argymhell i eraill ei wneud?
- Pa agweddau a oedd heb weithio cystal?
- A oedd y canlyniadau arfaethedig yn y camau cynllunio wedi'u gwireddu?
- A oedd unrhyw beth wedi'ch synnu?
- A oedd unrhyw ganlyniadau anfwriadol wrth lunio'r CIU?
- Sut mae'ch barn wedi newid ers llunio'r CIU?

Diolch a gorffen